Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk
Food Standards Agency

# Adroddiad ar Wasanaethau Gorfodi Cyfraith Bwyd

Cyngor Sir Gaerfyrddin
21 - 25 Tachwedd 2016

# Rhagair

Mae archwiliadau o wasanaethau gorfodi awdurdodau lleol o ran cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn rhan o drefniadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) i wella diogelwch a hyder cwsmeriaid mewn perthynas â bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae'r trefniadau hyn yn cydnabod mai cyfrifoldeb awdurdodau lleol yn bennaf yw gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid y Deyrnas Unedig (DU) mewn perthynas â diogelwch bwyd, hylendid, cyfansoddiad, labelu, bwyd sy'n cael ei fewnforio a bwyd anifeiliaid. Caiff swyddogaethau rheoleiddio'r awdurdodau lleol hyn eu darparu yn bennaf drwy eu Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach.

Mae'r adroddiad archwilio atodedig yn edrych ar Wasanaethau Gorfodi Cyfraith Bwyd yr awdurdod lleol. Mae'r asesiad yn cynnwys ystyriaeth o'r systemau a'r gweithdrefnau sydd wedi'u sefydlu ar gyfer ymyriadau mewn busnesau bwyd, samplu bwyd, rheolaeth fewnol, rheoli ac ymchwilio i achosion a chlefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd, cyngor i fusnesau, gorfodi a hyrwyddo diogelwch bwyd. Dylid cydnabod y bydd llawer o amrywiaeth efallai o ran y ffordd y gall awdurdodau lleol ddarparu eu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd, sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

Mae archwiliadau'r ASB yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau lleol yn erbyn y Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid. Mae'r "Safon", a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth fel rhan o'r Cytundeb Fframwaith ar Reolaethau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Swyddogol gan Awdurdodau Lleol (diwygiwyd Ebrill 2010) ar gael ar wefan yr Asiantaeth: https://www.food.gov.uk/cy/about-us/awdurdodau-lleol

Prif nod y cynllun archwilio yw cynnal a gwella diogelwch a hyder defnyddwyr drwy sicrhau bod awdurdodau lleol yn darparu gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid effeithiol. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi cyfle i amlygu a lledaenu arfer da, ac mae'n darparu gwybodaeth i lywio polisi'r Asiantaeth ar ddiogelwch bwyd, safonau a bwyd anifeiliaid, ac mae ar gael yn: https://www.food.gov.uk/cy/about-us/awdurdodau-lleol

Mae'r adroddiad yn cynnwys rhywfaint o ddata ystadegol, er enghraifft, nifer yr arolygiadau safleoedd bwyd a gynhaliwyd. Mae gwefan yr Asiantaeth yn cynnwys data am weithgarwch gorfodi ar gyfer pob awdurdod lleol yn y DU, ac mae ar gael yn: https://www.food.gov.uk/cy/about-us/awdurdodau-lleol

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys cynllun gweithredu, wedi'i baratoi gan yr awdurdod, i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r archwiliad.

I'ch helpu, mae rhestr o dermau technegol a ddefnyddir yn yr adroddiad archwilio hwn ar gael yn Atodiad C.

# Cynnwys


1 Cyflwyniad ....................4
Rheswm dros yr Archwiliad ....................4
Cwmpas yr Archwiliad ....................5
Cefndir ....................5
2 Crynodeb Gweithredol ....................8
3 Trefniadaeth a Rheolaeth ....................12
4 Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau Cofnodedig ....................17
5 Swyddogion Awdurdodedig ....................18
6 Cyfleusterau ac Offer ....................21
7 Ymyriadau ac Arolygiadau mewn Sefydliadau Bwyd ....................23
Hylendid Bwyd ....................23
Safonau Bwyd ....................29
8 Cwynion am Fwyd a Sefydliadau Bwyd ....................34
Hylendid Bwyd ....................34
Safonau Bwyd ....................34
9 Cynllun y Prif Awdurdod ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref ....................36
10 Cyngor i Fusnesau ....................37
11 Cronfa Ddata Sefydliadau Bwyd ....................38
12 Arolygu a Samplu Bwyd ....................40
Hylendid Bwyd ....................41
Safonau Bwyd ....................41
13 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy’n Gysylltiedig â Bwyd ....................43
14 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd ....................45
15 Gorfodi ....................46
16 Cofnodion ac Adroddiadau Ymyriadau/Arolygiadau ....................52
Hylendid Bwyd ....................52
Safonau Bwyd ....................53
17 Cwynion am y Gwasanaeth ....................55
18 Cysylltu â Sefydliadau Eraill ....................56
19 Monitro Mewnol ....................57
20 Adolygiad Trydydd Partïon neu Gymheiriaid ....................59
21 Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd ....................61
Atodiad A – Cynllun Gweithredu ....................62
Atodiad B – Dull/Methodoleg Archwilio ....................63
Atodiad C – Geirfa ....................66

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canlyniadau archwiliad hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid yng Nghyngor Sir Gaerfyrddin o dan benawdau Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yr ASB. Mae ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr ASB drwy: https://www.food.gov.uk/cy/arall/archwilio-awdurdodau-lleol-yng-nghymru-2010-2017

### *Rheswm dros yr Archwiliad*

1.2 Cafodd y pŵer i bennu safonau, monitro ac archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid awdurdodau lleol ei roi i'r ASB o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009. Cynhaliwyd yr archwiliad o wasanaethau bwyd yng Nghyngor Sir Gaerfyrddin o dan adran 12(4) y Ddeddf a Rheoliad 7 y Rheoliadau.

1.3 Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 ar reolaethau swyddogol a gyflawnir i sicrhau y caiff cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid ei gwirio yn cynnwys gofyniad i awdurdodau cymwys gynnal archwiliadau mewnol, neu drefnu bod archwiliadau allanol yn cael eu cynnal. Diben yr archwiliadau hyn yw cadarnhau y caiff rheolaethau swyddogol yn ymwneud â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid eu gweithredu'n effeithiol. I gyflawni'r gofyniad hwn, mae'r ASB, fel yr awdurdod cymwys canolog ar gyfer cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, wedi pennu trefniadau archwilio allanol. Wrth ddatblygu'r rhain, mae'r ASB wedi ystyried canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd ar sut y dylai archwiliadau o'r fath gael eu cynnal.[1]

1.4 Cynhaliwyd archwiliad o'r awdurdod fel rhan o raglen tair blynedd (2013 – 2016) o archwiliadau llawn o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru.

[1]Penderfyniad y Comisiwn ar 29 Medi 2006 sy'n nodi'r canllawiau sy'n gosod meini prawf ar gyfer cynnal archwiliadau o dan Reoliad (CE) Rhif 882/2004 Senedd a Chyngor Ewrop ar Reolaethau Swyddogol i wirio cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau iechyd a lles anifeiliaid (2006/677/EC).

***Cwmpas yr Archwiliad***

1.5 Roedd yr archwiliad yn cwmpasu trefniadau Cyngor Sir Gaerfyrddin ar gyfer darparu gwasanaethau gorfodi safonau bwyd a hylendid bwyd. Cynhaliwyd elfen 'ar y safle' yr archwiliad yn swyddfeydd yr awdurdod yn Nhŷ Elwyn, Llanelli rhwng 21 a 25 Tachwedd 2016. Roedd yr archwiliad yn cynnwys ymweliadau dilysu mewn busnesau bwyd i asesu effeithiolrwydd y rheolaethau swyddogol a roddwyd ar waith gan yr awdurdod, ac yn fwy penodol, y gwiriadau a gynhaliwyd gan swyddogion yr awdurdod, i gadarnhau cydymffurfiaeth gweithredwyr busnesau bwyd â gofynion deddfwriaethol.

1.6 Roedd yr archwiliad hefyd yn gyfle i gael trafodaeth â swyddogion sy'n ymwneud â gorfodi cyfraith bwyd, gyda'r nod o archwilio materion allweddol a chael safbwyntiau i lywio polisi'r ASB.

1.7 Roedd yr archwiliad yn asesu cydymffurfiaeth yr awdurdod â'r "Safon". Mabwysiadwyd y Safon gan Fwrdd yr ASB ar 21 Medi 2000 (ac fe'i diwygiwyd am y pumed tro ym mis Ebrill 2010), ac mae'n ffurfio rhan o Gytundeb Fframwaith yr Asiantaeth ag awdurdodau lleol. Mae'r Cytundeb Fframwaith ar gael ar wefan yr ASB: https://www.food.gov.uk/cy/about-us/awdurdodau-lleol

1.8 Roedd yr archwiliad hefyd yn adolygu'r camau a gymerwyd gan yr awdurdod mewn perthynas ag archwiliadau â ffocws yr ASB ar Olrhain a Dilysrwydd Pysgod Cregyn ac ar Reolaethau Hylendid Swyddogol mewn sefydliadau Llaeth yn 2014.

***Cefndir***

1.9 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn awdurdod unedol yn Ne-orllewin Cymru, sy'n cwmpasu ardal o 2,365 cilomedr sgwâr. Dyma'r awdurdod lleol mwyaf ond dau yng Nghymru. Mae'n ffinio â phum ardal awdurdod lleol arall – Ceredigion i'r gogledd, Powys i'r dwyrain, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot i'r de a Sir Benfro i'r gorllewin.

1.10 Mae Sir Gaerfyrddin yn cynnwys cymysgedd o ardaloedd gwledig, trefol ac arfordirol sy'n ymestyn o afon Teifi yn y gogledd i Fae Caerfyrddin yn y de. Mae'r ardal yn cwmpasu rhan o Barc Cenedlaethol y Bannau Brycheiniog yn y dwyrain ac mae'r prif lwybrau trafnidiaeth o fewn y fwrdeistref yn cynnwys yr A40 a'r A48 sy'n pasio drwy'r awdurdod.

1.11 Fel sir wledig yn bennaf, mae dwysedd y boblogaeth yn isel ar 71 person fesul cilomedr sgwâr, o'i gymharu â 140 o bobl fesul cilomedr sgwâr ar gyfer Cymru gyfan. Mae'r prinder poblogaeth hwn yn fwy amlwg yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin nag ydyw yn ne a dwyrain y sir, lle mae 65% o'r boblogaeth yn byw ar oddeutu 20% o'r arwynebedd tir. Mae prif ganolfannau trefol y sir yn cynnwys Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman.

1.12 Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae gan Sir Gaerfyrddin boblogaeth o 183,777 gyda 95.6% o'r boblogaeth yn wyn. Dywedir bod 32.8% o'r boblogaeth yn siarad, yn darllen, yn ysgrifennu neu'n deall Cymraeg ac mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn uwch na chyfartaledd Cymru.

1.13 Mae'r economi wedi'i seilio'n bennaf ar weithgarwch amaethyddol ac mae'r ardal yn wledig yn bennaf. Yr eithriadau yw'r tri anheddiad (*settlement*) i'r de lle mae'r aberoedd yn galluogi'r diwydiant pysgod cregyn i ddatblygu.

1.14 Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn dangos nad yw Sir Gaerfyrddin yn ardal 'o amddifadedd' ar y cyfan. Fodd bynnag, mae rhannau o'r ardal yn ymddangos yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru o ran 'mynediad at wasanaethau' gwael.

1.15 Roedd rheolaethau hylendid bwyd swyddogol yn cael eu gweithredu gan swyddogion Tîm Diogelwch Bwyd ac Iechyd a Diogelwch y Gweithle o fewn y Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd a Thrwyddedu, tra bo rheolaethau safonau bwyd swyddogol yn cael eu gweithredu gan swyddogion yr Adran Gwasanaethau Safonau Masnach. Roedd y timau hyn o fewn y Gwasanaethau Tai, Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Darparu yn yr Adran Cymunedau.

1.16 Roedd swyddogion a staff cymorth sy'n gyfrifol am hylendid bwyd a safonau bwyd wedi'u lleoli mewn dwy swyddfa yn Llanelli a Chaerfyrddin.

1.17 Dywedodd yr awdurdod nad oedd ganddo wasanaeth brys ffurfiol y tu allan i oriau 24 awr. Mae Cynllun Cyflenwi Gwasanaeth Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Thrwyddedu 2016/17 yn nodi y caiff unrhyw ymateb brys ei ddarparu ar sail ewyllys da. Ni phrofwyd y gwasanaeth allan o oriau fel rhan o'r archwiliad.

1.18 Ddechrau 2016/17, roedd tua 1,999 o sefydliadau busnesau bwyd yn Sir Gaerfyrddin. Yn ogystal, roedd 28 o sefydliadau bwyd cymeradwy.

1.19 Yn 2016/17 roedd gan yr awdurdod 8.95 a 4 swyddog cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn ymwneud â gweithredu rheolaethau swyddogol ar hylendid bwyd a safonau bwyd, yn y drefn honno.

1.20 Roedd yr awdurdod yn cynnig cyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus i swyddogion yn eu maes gwaith. Roedd cyllideb hyfforddiant ar gael i wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach ac roedd wedi'i gynnal bob blwyddyn.

1.21 Y gyllideb flynyddol ar gyfer y Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd oedd £3,226,793 yn 2016/17, sy'n cynnwys dyraniad amhenodol ar gyfer gorfodi cyfraith bwyd.

1.22 Mae'r awdurdod wedi bod yn cymryd rhan yn y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol a lansiwyd yng Nghymru ym mis Hydref 2010. Adeg yr archwiliad, roedd sgoriau hylendid bwyd 1,650 o sefydliadau bwyd yn Sir Gaerfyrddin ar gael i'r cyhoedd ar wefan Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yr ASB.

## 2 Crynodeb Gweithredol

2.1 Roedd yr archwiliad yn archwilio trefniadau Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer gweithredu rheolaethau bwyd swyddogol. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau go iawn mewn sefydliadau bwyd er mwyn asesu effeithiolrwydd y rheolaethau swyddogol, ac yn fwy penodol, y gwiriadau a gynhaliwyd gan swyddogion yr awdurdod, er mwyn gwirio cydymffurfiaeth y gweithredwyr busnesau bwyd gyda gofynion deddfwriaethol. Roedd cwmpas yr archwiliad hefyd yn cynnwys asesiad o drefniadaeth a rheolaeth gyffredinol yr awdurdod, a gwaith mewnol i fonitro gweithgarwch gorfodi cyfraith bwyd.

2.2 Y Pennaeth Tai, Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Darparwyr oedd â chyfrifoldeb cyffredinol dros ddarparu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd. Roedd rheolaethau hylendid bwyd swyddogol yn cael eu gweithredu gan swyddogion yn Nhîm Diogelwch Bwyd ac Iechyd a Diogelwch y Gweithle o fewn Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd a Thrwyddedu, tra bod rheolaethau swyddogol safonau bwyd yn cael eu darparu gan swyddogion yn y Gwasanaeth Safonau Masnach.

2.3 Roedd gan yr awdurdod drefniadau cynllunio gwasanaeth ar waith ynghyd â systemau ar gyfer monitro, adolygu ac adrodd ar berfformiad yn barhaus. Roedd dogfennau cynllunio gwasanaeth yn cynnwys rhywfaint o'r wybodaeth a nodwyd yn y Canllaw Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith, ond nid yr holl wybodaeth. Nid oedd y cynllun wedi cynnwys amcangyfrifiad cyffredinol o'r adnoddau staff sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd. Roedd yr awdurdod wedi cynnal adolygiad o'i berfformiad hylendid bwyd yn erbyn cynllun y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw adolygiad wedi'i gofnodi ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth safonau bwyd yn y blynyddoedd blaenorol.

2.4 Roedd gan yr awdurdod drefniadau awdurdodi ar gael i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n effeithiol gan swyddogion wedi'u hawdurdodi'n briodol. Roedd angen diwygio'r awdurdodiadau i sicrhau bod swyddogion wedi'u hawdurdodi o dan yr holl ddeddfwriaeth angenrheidiol. Yn gyffredinol, roedd y swyddogion wedi'u hawdurdodi yn unol â'u cymwysterau, eu hyfforddiant a'u profiad. Fodd bynnag, roedd angen adolygu awdurdodiadau'r swyddogion nad ydynt fel arfer yn rhan

o'r gwaith o weithredu rheolaethau swyddogol er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â'u cymwyseddau.

2.5 Roedd gweithdrefn gofnodedig wedi'i datblygu er mwyn sicrhau cywirdeb cronfa ddata sefydliadau bwyd yr awdurdod. Cadarnhaodd gwiriadau archwilio fod gwybodaeth am sefydliadau bwyd a gedwir ar y gronfa ddata yn gyfredol ar y cyfan ond bod angen gwella cywirdeb data sgorio risg a dyddiadau ymyriadau a raglennir ar gyfer hylendid bwyd. O ran safonau bwyd, roedd angen gwella er mwyn sicrhau bod cofnodion ar y gronfa ddata yn ymwneud ag ymyriadau a sgoriau ymyriadau yn gywir. Roedd yr awdurdod wedi darparu ffurflenni System Monitro Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS) i'r ASB mewn perthynas â chyfnodau adrodd blaenorol.

2.6 Ar ôl gwirio'r cofnodion a'r gronfa ddata, cadarnhawyd bod y gwasanaeth hylendid bwyd wedi blaenoriaethu arolygiadau busnesau risg uwch a busnesau arbenigol, ac eithrio nifer fach o achosion. Fodd bynnag, nid oedd yr holl sefydliadau risg is a sgoriwyd yn destun ymyriadau ar yr amlder sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. O ran safonau bwyd, nid oedd archwilwyr yn gallu asesu p'un a oedd ymyriadau wedi'u cynnal ar yr amlderau gofynnol, gan nad oedd y cynllun sgorio risg sy'n cael ei ddefnyddio gan yr awdurdod yn ymwneud â gweithgareddau safonau bwyd yn unig ac nid oedd gyfwerth â'r cynllun a nodwyd yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

2.7 Dangosodd cofnodion ymyriadau fod asesiad trylwyr o gydymffurfiaeth busnesau wedi'i gynnal yn ystod rhai arolygiadau hylendid bwyd. Dyma oedd yr achos yn arbennig pan ddefnyddiwyd ffurflen arolygu wedi'i diweddaru ar gyfer arolygiadau safonau bwyd. Mewn rhai achosion, ni chafodd digon o wybodaeth ei chasglu i ddangos bod swyddogion wedi cynnal asesiad trylwyr o gydymffurfiaeth busnesau yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Yn gyffredinol, roedd sgoriau risg hylendid bwyd yn unol â chanfyddiadau'r arolygiad.

2.8 Yn gyffredinol, cynhaliwyd ailymweliadau a gweithgarwch dilynol yn ôl yr angen i wirio cydymffurfiaeth â gofynion hylendid bwyd a safonau bwyd; gydag ychydig eithriadau.

2.9 Yn gyffredinol, roedd yr adroddiadau arolygu hylendid bwyd yn cael eu cynnal yn ddigonol gan yr awdurdod; yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Serch hynny, nodwyd yr angen i wella cofnodion y sefydliadau

cymeradwy. Yn gyffredinol, roedd yr adroddiadau arolygu safonau bwyd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol pan gyflawnwyd y gweithdrefnau hyn.

2.10 Cynhaliwyd camau gweithredu'r awdurdod mewn perthynas ag ymyriadau digwyddiadau a samplu hylendid bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Nodwyd yr angen am welliannau mewn perthynas ag ymateb yr awdurdod i gwynion bwyd a chwynion sefydliadau bwyd, samplu safonau bwyd a hysbysiadau am glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd.

2.11 Roedd yr awdurdod wedi bod yn rhagweithiol wrth ddarparu cyngor a chanllawiau i fusnesau bwyd. Cynhaliwyd mentrau hefyd i hyrwyddo hylendid bwyd a safonau bwyd.

2.12 Roedd rhywfaint o dystiolaeth o waith monitro mewnol mewn perthynas â'r gwasanaethau hylendid a safonau bwyd. Bydd datblygu a gweithredu gweithdrefnau monitro mewnol yr awdurdod ymhellach yn helpu i wella'r broses.

2.13 Sefydlodd yr archwilwyr fod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud o ran gweithredu'r gofynion yn dilyn archwiliad â ffocws yn 2014 o Reolaethau Hylendid Swyddogol mewn sefydliadau Llaeth ac Ymarfer Olrhain a Dilysrwydd Pysgod Cregyn yn 2014. Mae'r cynlluniau gweithredu ar gyfer yr archwiliadau hyn wedi'u diweddaru'n unol â hynny.

**2.14 Cryfderau'r Awdurdod**

**Cyngor i fusnesau**

Roedd yr awdurdod wedi bod yn rhagweithiol, ac yn gallu dangos ei fod yn gweithio â busnesau i'w helpu i gydymffurfio â'r gyfraith hylendid a safonau bwyd.

**Digwyddiadau**

Roedd yr awdurdod yn gallu dangos ei fod wedi cyhoeddi ac ymateb i hysbysiadau am ddigwyddiadau mewn modd amserol ac effeithiol, drwy ymchwilio a rhannu gwybodaeth â'r ASB ac awdurdodau eraill.

**Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd**

Roedd yr awdurdod wedi cynnal nifer o fentrau gyda'r nod o hyrwyddo hylendid a safonau bwyd. Dangosodd yr awdurdod ei fod yn dilyn arfer

da wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasu i hyrwyddo ymwybyddiaeth o fentrau.

**2.15 Meysydd Allweddol y mae gofyn i'r Awdurdod wella arnynt**

**Awdurdodiadau Swyddogion**
Roedd angen diweddaru gweithdrefnau awdurdodi'r awdurdod a'u gweithredu'n gyson er mwyn sicrhau bod swyddogion wedi'u hawdurdodi'n briodol o dan yr holl ddeddfwriaeth berthnasol ac yn unol â'u cymwysterau, eu hyfforddiant a'u profiad.

**Amlder Ymyriadau Hylendid Bwyd a Safonau Bwyd**
Nid oedd ymyriadau hylendid bwyd wedi'u cynnal ar yr amlder lleiaf a fynnir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd ac nid oedd yr amlder lleiaf ar gyfer ymyriadau safonau bwyd wedi'i bennu'n gywir yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd oherwydd y defnydd o gynllun sgorio risg anghyson. Mae ymyriadau a gynhelir ar yr amlder lleiaf yn sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â busnesau bwyd yn cael eu nodi ac y caiff camau dilynol eu cymryd mewn modd amserol.

**Ymyriadau ac Arolygiadau Hylendid Bwyd**
Nid oedd gwybodaeth a gasglwyd gan swyddogion yn ystod ymyriadau bob amser ar gael neu'n ddigon manwl i ddangos bod cydymffurfiaeth busnesau wedi'i asesu'n drylwyr ar gyfer pob prif agwedd. Nid oedd y broses gymeradwyo wedi'i chymhwyso'n gyson yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd tra bod angen gwella'r cofnodion sy'n ymwneud â sefydliadau cymeradwy.

**Cronfa Ddata o Sefydliadau Bwyd**
Roedd cronfa ddata'r awdurdod yn cynnwys gwallau o ran sgoriau risg a dyddiadau arolygu dyledus ar gyfer hylendid bwyd, a chofnodion a sgoriau risg ar gyfer safonau bwyd.

**Rheoli ac Ymchwilio i Glefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd**
Nid oedd cofnodion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd bob tro yn dangos bod ymchwiliadau priodol wedi'u cynnal.

**Gorfodi**
Nid oedd camau gorfodi wedi'u cymryd yn unol â'r Polisi Gorfodi, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog bob tro.

## Canfyddiadau'r Archwiliad

## 3 Trefniadaeth a Rheolaeth

*Fframwaith Strategol, Polisi a Chynllunio Gwasanaeth*

3.1 Mae Cyfansoddiad yr awdurdod yn amlinellu ei drefniadau gwneud penderfyniadau. Roedd penderfyniadau ar y rhan fwyaf o faterion gweithredol wedi'u dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Thai ac i Bennaeth Diogelu'r Cyhoedd (Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd erbyn hyn). Roedd y gwaith o orfodi cyfraith bwyd wedi'i oruchwylio gan Aelod Bwrdd Gweithredol penodedig.

3.2 Roedd yr awdurdod wedi datblygu 'Cynllun Cyflenwi Gwasanaeth y Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Thrwyddedu 2016/17' ('y Cynllun Gwasanaeth'). Roedd y Cynllun Gwasanaeth wedi'i gymeradwyo mewn Cyfarfod Penderfyniadau Aelodau'r Bwrdd Gweithredol ar gyfer Diogelu'r Amgylchedd a'r Cyhoedd ar 19 Mai 2016.

3.3 Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth a amlinellir yn y Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith, gan gynnwys proffil o'r awdurdod a chwmpas y gwasanaeth. Byddai'r Cynllun Gwasanaeth yn elwa o gynnwys siart yn dangos y rheolwyr a'r swyddogion sy'n gyfrifol am gyflwyno rheolaethau bwyd swyddogol. Roedd yr amseroedd gweithredu, y mannau darparu gwasanaeth a nodau ac amcanion y gwasanaeth wedi'u nodi'n glir.

3.4 Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn nodi bod oddeutu 1,994 o sefydliadau bwyd yn Sir Gaerfyrddin.

3.5 Darparwyd dadansoddiad o sefydliadau bwyd yn ôl math busnes ynghyd â nifer yr ymyriadau hylendid bwyd a safonau bwyd a oedd yn ddyledus yn 2016/17 yn ôl categori sgorio risg.

3.6 O ran hylendid bwyd, roedd yr wybodaeth ganlynol yn y Cynllun Gwasanaeth:

| **Categori** | **Arolygiadau wedi'u cynllunio 2016/17** |
|---|---|
| A | 2 |
| B | 62 |
| C | 502 |
| D | 171 |
| E | 249 |
| Heb sgôr | 51 |
| **Cyfanswm yr arolygiadau** | **1037** |
| Ailymweliadau Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (amcangyfrifiad) | **45** |
| Amcangyfrifiad o ailymweliadau | **50** |
| Ymweliadau Rheoli Diogelwch Bwyd a ragwelir | **0** |
| **Cyfanswm yr ymweliadau** | **95** |

3.7 Roedd y targedau a'r blaenoriaethau ar gyfer hylendid bwyd wedi'u nodi yn y Cynllun Gwasanaeth. Roedd y rhain yn cynnwys ymrwymiad i gyflawni'r holl arolygiadau/ymyriadau a oedd yn ddyledus mewn sefydliadau risg uwch.

3.8 Mewn perthynas â sefydliadau risg is, roedd y Cynllun Gwasanaeth yn nodi y byddent yn cael naill ai arolygiad neu'n destun gweithgarwch ymyrryd amgen; yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

3.9 Darparwyd yr wybodaeth ganlynol o ran safonau bwyd:

| **Categori** | **Arolygiadau wedi'u cynllunio 2016/17** |
|---|---|
| A – Uchel | 50 |
| B – Canolig | 800 |
| Heb ei sgorio + Isel | 25 |
| **Cyfanswm** | **875** |

3.10 Roedd y targedau a'r blaenoriaethau ar gyfer ymyriadau safonau bwyd yn cynnwys ymrwymiad i gynnal arolygiadau/ymyriadau ym mhob sefydliad risg uchel, 50% o sefydliadau risg canolig ac 20% o sefydliadau risg isel wrth iddynt ddod yn ddyledus; yn unol â'r rhaglen a nodwyd ar ddechrau'r flwyddyn.

3.11 Nid oedd y Cynllun Gwasanaeth yn amlineullu'n fanwl nifer y busnesau heb eu sgorio, y busnesau newydd na'r busnesau risg isel sydd angen ymyriad amgen yn ystod y flwyddyn.

3.12 Penderfynwyd ar flaenoriaethau a thargedau ymyrryd yr awdurdod a bennwyd yn y Cynllun Gwasanaeth yn seiliedig ar asesiad risg. Fodd bynnag, nid oedd y cynllun asesu risg ar gyfer safonau bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

3.13 Cafodd yr adnoddau a oedd ar gael i ddarparu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd yn y Cynllun Gwasanaeth eu nodi fel a ganlyn:

| | **Cyfwerth ag Amser Llawn – Diogelwch bwyd* 2015/16 Cyfwerth ag amser llawn** | **Cyfwerth ag Amser Llawn – Diogelwch bwyd* 2016/17 Cyfwerth ag amser llawn** | **Cyfwerth ag Amser Llawn – Safonau bwyd 2015/16 Cyfwerth ag amser llawn** | **Cyfwerth ag Amser Llawn – Safonau bwyd 2016/17 Cyfwerth ag amser llawn** |
|---|---|---|---|---|
| Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd | | | | |
| Rheolwr Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd | 0.2 | 0.2 | | |
| Prif Swyddog | 0.7 | 0.7 | 0.6 | 0.6 |
| Uwch swyddogion | 0.8 | 0.8 | | |
| Ymarferwyr Iechyd yr Amgylchedd | 7.35 | 7.35 | | |
| Cynorthwy-ydd Technegol – samplu | 0.2 | 0.8 | 2.5 | 2.5 |
| Swyddogion Iechyd Anifeiliaid | 0.05 | 0.05 | | |
| **Cyfanswm** | **9.3** | **9.9** | **3.1** | **3.1** |

**Nodyn** : * Mae 'diogelwch bwyd' yn cynnwys arolygu (gan gynnwys gweithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd), rhoi cyngor, samplu, monitro pysgod cregyn, clefydau heintus, gwella iechyd,

3.14 Nid yw'r tabl hwn yn nodi nifer y Swyddogion Safonau Masnach Cyfwerth ag Amser Llawn sy'n ymwneud â gorfodi cyfraith bwyd.

3.15 Roedd yr awdurdod wedi nodi'r galw neu'r adnoddau tebygol sy'n ofynnol ar gyfer rhai agweddau ar gyflenwi gwasanaeth bwyd. Nid oedd amcangyfrifon yn ymwneud â gwaith Awdurdodau Cartref a Phrif Awdurdodau, ceisiadau gwasanaeth safonau bwyd, rhoi cyngor i fusnesau a gwaith cysylltu a hyrwyddo safonau bwyd, wedi'u nodi fel rhai gofynnol gan Ganllawiau Cynllunio Gwasanaeth yr ASB. At hynny, ni ddarparwyd asesiad cyflawn o'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r ystod lawn o reolaethau swyddogol bwyd yn erbyn y rhai hynny sydd ar gael.

3.16 Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn cynnwys gwybodaeth am Bolisi Gorfodi'r awdurdod a'i ddull o ddatblygu staff. Hefyd, pwysleisiwyd yr angen i gyflawni nifer o arolygiadau y tu allan i oriau. Fodd bynnag, byddai'r Cynllun Gwasanaeth yn elwa trwy gynnwys gwybodaeth am yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer datblygu staff sy'n ymwneud â gorfodi cyfraith bwyd.

3.17 Cadarnhaodd yr awdurdod nad oedd ganddo unrhyw drefniadau Prif Awdurdodau ac Awdurdod Cartref gyda busnesau. Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn ymrwymo i gefnogi gweithgynhyrchwyr lleol a rheoleiddwyr eraill fel Awdurdod Gwreiddiol o dan egwyddor yr Awdurdod Cartref. Byddai'r datganiad yn elwa ar fesur yn well y galw ar bob gwasanaeth a'r gweithwyr Cyfwerth ag Amser Llawn sydd eu hangen i'w gyflawni

3.18 Cafodd trefniadau ar gyfer monitro mewnol neu *'asesiad ansawdd'* o'r gwasanaeth hylendid bwyd eu nodi yn y Cynllun Gwasanaeth. Dylid datblygu hyn ymhellach i gynnwys trefniadau ar gyfer monitro mewnol o ran safonau bwyd.

3.19 Darparwyd cost gyffredinol ar gyfer gwasanaethau diogelu'r cyhoedd yn y Cynllun Gwasanaeth. Roedd hyn yn cynnwys tueddiadau mewn gwariant a dadansoddiad o rai costau nad ydynt yn sefydlog, fel staffio, offer, buddsoddi mewn TG, teithio a samplu. Yn ychwanegol, dylid darparu gwybodaeth mewn perthynas â chynhaliaeth a chyfeiriad at ddarpariaeth ariannol adrannol ar gyfer gweithredu cyfreithiol yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth.

3.20 Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn amlinellu sut y byddai perfformiad yr awdurdod o ran cyflenwi rheolaethau swyddogol bwyd yn cael ei adolygu

yn erbyn cynllun y flwyddyn flaenorol. Roedd adolygiad diweddaraf y gwasanaeth hylendid bwyd wedi'i gynnwys mewn adroddiad diwedd y flwyddyn ar gyfer y pwyllgor craffu priodol. Fodd bynnag, nid oedd yr adolygiad o'r gwasanaeth safonau bwyd wedi'i gofnodi. Nid oedd yr adolygiad hylendid bwyd yn cwmpasu'r holl dargedau a bennwyd yn y Cynllun Gwasanaeth.

3.21 Ni ddarparwyd yr amrywiadau o ran cyflawni'r targedau a bennwyd yng Nghynllun Gwasanaeth y flwyddyn flaenorol.

3.22 Roedd yr awdurdod wedi ymgorffori nifer o feysydd i'w gwella yn ei Gynllun Gwasanaeth 2016/17, nad oeddent yn benodol i wasanaethau bwyd nac yn seiliedig ar yr adolygiad gofynnol o berfformiad yn erbyn targedau a bennwyd yng Nghynllun Gwasanaeth y flwyddyn flaenorol.

***Argymhellion***

3.23 Dylai'r awdurdod:

(i) Sicrhau bod Cynlluniau Gwasanaeth y dyfodol ar gyfer hylendid a safonau bwyd yn cael eu datblygu yn unol â Chanllawiau Cynllunio Gwasanaeth y Cytundeb Fframwaith. Yn benodol, dylid darparu amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r gwasanaethau yn erbyn y rheiny sydd ar gael. [Y Safon – 3.1]

(ii) Sicrhau bod yr adolygiad perfformiad blynyddol yn cynnwys yr holl wybodaeth am berfformiad y flwyddyn flaenorol yn erbyn Cynlluniau Gwasanaeth hylendid bwyd a safonau bwyd ac unrhyw dargedau perfformiad, safonau a chanlyniadau a nodwyd. Sicrhau bod yr adolygiad hwn yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo naill ai i'r fforwm aelodau perthnasol neu'r uwch swyddog dirprwyedig priodol. [Y Safon – 3.2]

## 4 Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau Cofnodedig

4.1 Roedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefnau gweithredol ar wahân ar reoli dogfennau ar gyfer y gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd. Roedd y rhain yn cynnwys rheoli'r broses o gynhyrchu, cymeradwyo, adolygu, diweddaru a storio polisïau, gweithdrefnau a dogfennau cysylltiedig.

4.2 Roedd dogfennau ar gyfer y gwasanaeth hylendid bwyd yn cael eu storio'n electronig a'u diogelu rhag mynediad heb awdurdod. Roedd y system safonau bwyd yn cynnwys cadw copi caled o lawlyfr ansawdd.

4.3 Roedd rheolwyr yn gyfrifol am ddatblygu, adolygu a chymeradwyo dogfennau yn ogystal â sicrhau eu bod yn destun adolygiad ar gyfnodau penodedig, ac fel y bo'n briodol, yn dilyn newidiadau. Roedd caniatâd i newid y rhestr o ddogfennau neu ddogfennau unigol wedi'i gyfyngu i unigolion enwebedig. Roedd unigolion enwebedig hefyd yn gyfrifol am sicrhau y caiff hen ddogfennau eu tynnu oddi yno.

4.4 Roedd archwilwyr yn gallu gwirio bod gan swyddogion fynediad at bolisïau a gweithdrefnau, deddfwriaeth a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog ar ffurf copi caled neu'n electronig. Roedd gan yr Adran Safonau Masnach fynediad at ddeddfwriaeth a chanllawiau drwy danysgrifiad i wasanaeth gwybodaeth gorfodi allanol.

4.5 Roedd y rhan fwyaf o'r dogfennau wedi cael eu hadolygu yn unol â'r gweithdrefnau. Fodd bynnag, roedd angen diweddaru'r polisïau gorfodi i gynnwys gwybodaeth a chyfeiriadau cyfredol.

***Argymhellion***

4.6 Dylai'r awdurdod:

(i) Sicrhau bod y polisi gorfodi a fabwysiadwyd yn cael ei ddiweddaru gyda gwybodaeth a chyfeiriadau cyfredol a'i fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd yn unol â gweithdrefnau rheoli dogfennau. [Y Safonau – 4.1 a 4.2]

## 5 Swyddogion Awdurdodedig

5.1 Rhoddodd Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yr awdurdod a nodir yn ei Gyfansoddiad awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Thai a Phennaeth Diogelu'r Cyhoedd (sef y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd erbyn hyn) mewn perthynas â phwerau mynediad a chyflawni dyletswyddau yn ymwneud â'r gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd. Roedd hyn yn cynnwys yr awdurdod dirprwyedig i awdurdodi swyddogion eraill ac awdurdodi camau cyfreithiol ar y cyd â'r Phennaeth Gweinyddu a'r Gyfraith.

5.2 Roedd gweithdrefnau cofnodedig wedi'u datblygu ar gyfer awdurdodi swyddogion hylendid bwyd a safonau bwyd yn seiliedig ar eu cymwyseddau a'u profiad.

5.3 Roedd swyddogion arweiniol wedi'u penodi ar gyfer hylendid bwyd, safonau bwyd, bwyd anifeiliaid a chlefydau trosglwyddadwy, ac roedd pob un ohonynt yn meddu ar y cymwysterau angenrheidiol, wedi cael hyfforddiant ac yn gallu dangos bod ganddynt wybodaeth briodol.

5.4 Roedd gan yr awdurdod systemau ar waith i nodi anghenion hyfforddi swyddogion gan gynnwys asesiadau unigol a gweithgareddau monitro mewnol. Roedd yna gynlluniau datblygu staff wedi'u cofnodi ac roedd yr awdurdod yn darparu cyfuniad o hyfforddiant mewnol a hyfforddiant allanol. Roedd hi'n ofynnol i bob swyddog gyflawni 10 awr o waith Datblygu Proffesiynol Parhaus (DPP) yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Roedd gan yr awdurdod gyllideb ar gyfer hyfforddi a datblygu swyddogion, er nad oedd yn glir faint oedd wedi'i ddyrannu er budd gorfodi cyfraith bwyd. Hysbyswyd yr archwilwyr fod cyfyngiadau sylweddol ar y gallu i ymgymryd â chyfleoedd hyfforddi a oedd yn golygu cost sylweddol.

5.5 Archwiliwyd cofnodion cymwysterau a hyfforddiant chwe swyddog sy'n gweithio i weithredu rheolaethau swyddogol hylendid bwyd a phedwar swyddog sy'n gweithio i weithredu rheolaethau swyddogol safonau bwyd. Roedd cofnodion swyddogion yn cael eu cadw gan yr awdurdod ar gynllun ffeiliau'r awdurdod ac ar ffeiliau copi caled, yn y drefn honno.

5.6 Roedd pob un o'r swyddogion safonau bwyd, namyn un, a phob un o'r swyddogion hylendid bwyd, namyn un, wedi'u hawdurdodi yn unol â'u cymwysterau, eu hyfforddiant a'u profiad. Roedd awdurdodiadau ar gyfer

swyddogion hylendid bwyd wedi'u llofnodi gan swyddog arall, nid y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd, a hynny'n groes i'r weithdrefn awdurdodi. Roedd hyn hefyd yn groes i'r Cynllun Dirprwyo gan nad oedd gan y swyddog yr awdurdod dirprwyedig angenrheidiol. Ymhellach, roedd matrics yn manylu ar ystod yr awdurdodiadau yn yr adran, yn cynnwys nifer o swyddogion nad ydynt yn gweithio yn y maes bwyd. Ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth am gymhwysedd y swyddogion hyn i gyflawni dyletswyddau gorfodi cyfraith bwyd. Hefyd, roedd cardiau gwarantau swyddogion yn wahanol i'r offerynnau yn ysgrifenedig, nid oedd yr holl ddeddfwriaeth allweddol wedi'i chynnwys ar y dogfennau awdurdodi ac roedd angen diweddaru un eitem. Roedd yr awdurdodiadau ar gyfer swyddogion safonau bwyd yn cynnwys yr holl ddeddfwriaeth allweddol sydd ei hangen ar gyfer gweithredu'r ystod o reolaethau bwyd swyddogol, ond roedd angen diweddaru rhai mân elfennau o'r ddeddfwriaeth. Ymhellach, roedd gan yr awdurdod swyddogion awdurdodedig dan Ddeddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985 y mae'r ASB yn gyfrifol amdani. Roedd yr archwilwyr yn cydnabod bod y system ar gyfer awdurdodi swyddogion wrthi'n cael ei hadolygu.

5.7 Roedd cymwysterau academaidd a chymwysterau perthnasol eraill ar gael i bawb, namyn un swyddog hylendid bwyd, a phob un swyddog safonau bwyd, namyn un. Hysbyswyd yr archwilwyr bod trefniadau ar y gweill i ddarparu copi o'r cymhwyster safonau bwyd gan y corff dyfarnu.

5.8 Roedd pob swyddog wedi derbyn 10 awr o DPP sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. At hynny, roedd pob swyddog, namyn un, wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol i gyflawni agweddau technegol ar y gwaith yr oeddent yn rhan ohono. Byddai'r awdurdod yn elwa o sicrhau bod un swyddog yn cael hyfforddiant Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP) ffurfiol sy'n gymesur â'i ddyletswyddau.

**Argymhellion**

5.9 Dylai'r awdurdod:

(i) Adolygu a diwygio ei awdurdodiadau i sicrhau y caiff swyddogion eu hawdurdodi'n briodol dan yr holl ddeddfwriaeth berthnasol; a sicrhau bod dogfennau awdurdodi ar gyfer swyddogion hylendid bwyd yn cael eu llofnodi gan rywun y dirpwyir iddo'r pŵer i wneud hynny yn unol â'r Cyfansoddiad a gweithdrefn yr awdurdod. [Y Safon – 5.1]

(ii) Sicrhau bod awdurdodiad yr holl swyddogion hylendid bwyd a safonau bwyd yn gyson â'u cymwysterau a'u hyfforddiant. [Y Safon – 5.3]

(iii) Sicrhau bod yr holl swyddogion hylendid bwyd awdurdodedig yn bodloni'r gofynion hyfforddi sydd wedi'u nodi yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd; gan gynnwys hyfforddiant HACCP. [Y Safon – 5.4]

(iv) Cadw cofnodion o'r holl gymwysterau academaidd neu gymwysterau eraill perthnasol ar gyfer swyddogion hylendid bwyd a safonau bwyd awdurdodedig. [Y Safon – 5.5]

## 6 Cyfleusterau ac Offer

6.1 Roedd gan yr awdurdod yr holl adnoddau a'r offer angenrheidiol sy'n ofynnol er mwyn cynnal gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd yn effeithiol, ac roeddent wedi'u storio'n briodol ac ar gael i'r swyddogion perthnasol.

6.2 Datblygwyd gweithdrefn ar gyfer graddnodi thermomedrau, ond nid oedd hyn yn cyfeirio'n fanwl at y trefniadau ar gyfer sicrhau bod thermomedrau wedi'u nodi'n gywir, eu hasesu ar gyfer cywirdeb a'u tynnu'n ôl rhag eu defnyddio pan ganfu eu bod yn ddiffygiol. Roedd y weithdrefn a ddilynwyd yn cyfeirio at brofi, gan gynnwys gwiriadau wrth eu defnyddio, ynghyd â'r camau i'w cymryd os eir heibio lefelau goddefiant. Fodd bynnag, nid oedd y lefelau goddefiant a oedd yn cael eu defnyddio yn unol â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Ni ddatblygwyd unrhyw weithdrefnau i gynnal a chadw offer ar gyfer y gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd.

6.3 Rhoddwyd thermomedrau i swyddogion. Roeddent yn cael eu graddnodi gan ddefnyddio dŵr wedi'i rewi / wedi'i ferwi yn unol â'r weithdrefn ac yn cael eu graddnodi mewn labordy bob blwyddyn, o leiaf. Roedd yr awdurdod yn cadw cofnodion graddnodi.

6.4 Cadarnhaodd archwiliad o'r cofnodion yn ymwneud â'r gwiriadau graddnodi diweddaraf bod pob thermomedr o fewn y lefelau goddefiant derbyniol yn unol â gweithdrefn yr awdurdod.

6.5 Roedd cronfeydd data sefydliadau bwyd yr awdurdod yn gallu darparu'r wybodaeth yr oedd yr ASB yn ei cheisio. Roedd copïau wrth gefn yn cael eu creu o'r cronfeydd data bwyd, ynghyd â dogfennau electronig eraill a ddefnyddiwyd mewn cysylltiad â gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd, yn rheolaidd er mwyn osgoi colli data.

6.6 Roedd gan yr awdurdod systemau ar waith i sicrhau parhad busnes a lleihau niwed drwy atal neu leihau effaith digwyddiadau diogelwch. Mewn perthynas â gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd, roedd swyddogion wedi cael cyfrineiriau unigol ac roedd mynediad cyfyngedig ar gyfer cofnodi a dileu data ar sail unigol. Datblygwyd protocolau mewnbynnu data a chynghorwyd archwilwyr bod materion yn cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd tîm er mwyn sicrhau cysondeb.

**Argymhellion**

6.7 Dylai'r awdurdod:

(i) Diwygio'r weithdrefn gofnodedig ar gyfer graddnodi thermomedrau i sicrhau bod lefelau goddefiant penodol yn unol â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog a sefydlu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer cynnal a chadw offer a ddefnyddir gan wasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd. [Y Safon – 6.2]

## 7 Ymyriadau ac Arolygiadau mewn Sefydliadau Bwyd

### *Hylendid Bwyd*

7.1 Yn 2015/16 adroddodd yr awdurdod trwy LAEMS, o'r 1,999 o fusnesau bwyd o fewn ei ardal, fod pob sefydliad bwyd categori A-E a oedd i fod i gael ymyriad, wedi cael un. At hynny, roedd 94.25% o fusnesau bwyd yn 'cydymffurfio i raddau helaeth' â deddfwriaeth hylendid bwyd. Roedd hyn yn gyson â chanran y sefydliadau yn cydymffurfio i raddau helaeth a adroddwyd yn y flwyddyn flaenorol.

7.2 Roedd yr wybodaeth a ddarparwyd yn ystod yr archwiliad yn nodi bod yr awdurdod wedi mabwysiadu dull seiliedig ar risg tuag at reoli ei raglen ymyriadau hylendid bwyd. Ar adeg yr archwiliad, roedd 117 o sefydliadau yn hwyr yn cael ymyriad yn unol â'r amlederau a bennwyd yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. O'r rhain, roedd 21 (1 categori B ac 20 categori C) yn ymwneud â busnesau â risg uwch a rhwng 1 mis a 10 mis yn hwyr yn cael ymyriad.

7.3 Roedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefnau cofnodedig gyda'r nod o sefydlu dull unffurf tuag at gyflawni ymyriadau hylendid bwyd. Roedd gweithdrefnau hefyd ar waith ar gyfer ymyriadau mewn sefydliadau cymeradwy. Cadarnhaodd archwiliad o'r gweithdrefnau hyn eu bod nhw'n gyffredinol yn unol â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a'r canllawiau perthnasol a gyhoeddir yn ganolog. Trafododd yr archwilwyr y budd o gynnwys manylion am drefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli ymyriadau mewn busnesau newydd a phrydlondeb ail-ymweliadau gorfodi i wirio cydymffurfiaeth. Byddai'r gweithdrefnau'n elwa trwy gynnwys gwybodaeth i swyddogion am system fflagio a threfniadau ar gyfer samplu yn ystod arolygiadau.

7.4 Mewn perthynas â'r weithdrefn ar gyfer ymyriadau mewn sefydliadau cymeradwy, trafododd archwilwyr y budd o ddarparu manylion i swyddogion mewn perthynas ag ymyriadau yn y sefydliadau hyn; gan gynnwys nodi'r dull lleol at arolygu. Byddai'r weithdrefn hefyd yn elwa o gynnwys gwybodaeth am amseroldeb ymweliadau cymeradwyo a threfniadau ar gyfer hysbysu'r ASB a gweithredwyr busnesau bwyd am gymeradwyaethau.

7.5 Datblygwyd aide-memoire archwiliad hylendid bwyd gan yr awdurdod i gynorthwyo swyddogion i ymgymryd ag asesiad trylwyr o gydymffurfiaeth busnesau yn ystod arolygiadau.

7.6 Cafodd cyfanswm o 10 sefydliad bwyd a arolygwyd yn ddiweddar eu dewis i'w harchwilio. Cynhaliwyd archwiliad o gofnodion yn ymwneud â naw o'r sefydliadau hyn. Nid oedd y sefydliad arall, a oedd yn sefydliad categori D, yn destun archwiliad, gan ei fod wedi rhoi'r gorau i fasnachu cyn yr archwiliad ac nid oedd y cofnodion ar gael. Cadarnhaodd archwilwyr, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fod pob sefydliad ond tri wedi'u harolygu ar yr amlder gofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Fodd bynnag, yn y tri achos a oedd yn weddill, roedd sefydliad categori B, sefydliad categori C a sefydliad categori D rhwng mis a thri mis ar ôl y dyddiad dyledus yn cael ymyriad. Mae’n ofynnol o dan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd bod ymyriadau’n cael eu cynnal o fewn 28 diwrnod i’r dyddiad targed.

7.7 Roedd cofnodion arolygu ar gael ac yn ddarllenadwy ar gyfer y naw sefydliad bwyd a archwiliwyd ac roedd digon o wybodaeth wedi'i chofnodi i alluogi archwilwyr i wirio maint, graddfa a chwmpas gweithrediadau'r busnes mewn saith achos. Yn y ddau achos a oedd yn weddill, ni chafwyd digon o wybodaeth.

7.8 Mewn chwe achos, roedd y manylion a gofnodwyd ar aides-memoire yn briodol i alluogi archwilwyr i wirio bod asesiadau trylwyr o gydymffurfiaeth busnes â gofynion yn ymwneud â HACCP wedi'u cynnal. Yn y tri achos a oedd yn weddill, nid oedd y manylion a gofnodwyd yn ddigonol i archwilwyr wirio, a oedd asesiad digonol o gydymffurfiaeth â gofynion HACCP wedi'i gynnal.

7.9 Mewn saith o'r naw achos, cadarnhaodd cofnodion arolygu fod swyddogion wedi cynnal asesiad priodol o effeithiolrwydd rheolaethau croeshalogi. Yn yr achosion a oedd yn weddill, nid oedd digon o wybodaeth ar y cofnod arolygu i alluogi archwilwyr i wirio bod y swyddog wedi ystyried yn llawn pob agwedd ar reolaeth croeshalogi.

7.10 Ym mhob achos ond un, roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod gwybodaeth am hyfforddiant hylendid a gynhaliwyd gan sefydliadau sy'n trin bwyd wedi'i chasglu, ac mewn chwech achos allan o naw, cafodd trafodaethau gyda sefydliadau sy'n trin bwyd sy'n gyfrifol am fonitro a

chyflawni camau cywiro yn y Pwyntiau Rheoli Critigol eu cofnodi. Yn yr achosion a oedd yn weddill, nid oedd digon o wybodaeth ar gael.

7.11 Lle bo'n briodol, cofnodwyd gwybodaeth am gyflenwyr a chwsmeriaid mewn perthynas â'r gallu i olrhain bwyd. Ym mhob achos, nid oedd archwilwyr yn gallu cadarnhau bod swyddogion wedi cynnal gwiriadau ar farciau iechyd / adnabod i ddilysu ffynhonnell bwydydd. Roedd tystiolaeth mewn dau achos i ddangos bod swyddogion wedi ystyried bwydydd wedi'u mewnforio. At hynny, mewn un achos perthnasol, nid oedd archwilwyr yn gallu gwirio a oedd system galw cynnyrch yn ôl/tynnu cynnyrch yn ôl y sefydliad yn ddigonol.

7.12 Roedd y sgoriau risg a roddwyd i'r safleoedd yn gyson â chanfyddiadau'r arolygiadau ym mhob achos. Fodd bynnag, mewn un achos, nododd archwilwyr nad oedd sgôr hylendid bwyd a hysbyswyd i fusnes yn cyfateb i elfennau perthnasol y cynllun sgorio ymyrraeth hylendid bwyd a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r sgôr risg. Yn ogystal, ar ôl dadansoddi'r gronfa ddata, nodwyd rhai gwallau gan swyddogion yn ymwneud â nifer fach o sgoriau risg.

7.13 Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod camau dilynol priodol wedi'u cymryd mewn wyth achos lle nodwyd tramgwyddau yn yr ymyriad blaenorol. Yn yr achos a oedd yn weddill, a oedd yn ymwneud â Hysbysiad Gwella Hylendid, nododd archwilwyr nad oedd unrhyw dystiolaeth bod camau dilynol wedi'u cymryd o fewn cyfnod o bum mis.

7.14 O ran yr arolygiadau diweddaraf, lle nododd cofnodion fod angen camau dilynol, roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod hyn wedi digwydd ym mhob achos ond un. Yn yr achos hwn, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod ymweliadau i wirio cydymffurfiaeth wedi'u cynnal yn y cyfnod rhwng cyflwyno Rhybudd Gweithredu Adferol a'i dynnu'n ôl oddeutu mis yn ddiweddarach.

7.15 Cafodd yr awdurdod ei hysbysu gan yr ASB cyn yr archwiliad fod 30 o sefydliadau cymeradwy yn ei ardal. Archwiliwyd cofnodion 10 o'r rhain.

7.16 Mewn chwe achos, roedd archwilwyr yn gallu cadarnhau bod yr awdurdod wedi dilyn y broses briodol ar gyfer cymeradwyo sefydliadau. Mewn tri achos, nododd archwilwyr fod y sefydliadau wedi'u cymeradwyo'n llawn ar ôl un arolygiad yn groes i ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Yn yr achos a oedd yn weddill, nid oedd yr archwilwyr yn

gallu gwirio'r broses a ddilynwyd ar gyfer y sefydliad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth cyn iddo gael ei gymeradwyo'n llawn.

7.17 Ym mhob achos ond un, roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod arolygiadau diweddar wedi'u cynnal mewn sefydliadau ar yr amlder sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd gan swyddogion â chymwysterau priodol. Yn yr achos a oedd yn weddill, roedd sefydliad â sgôr B wedi bod yn destun ymyriad tua deufis ar ôl y dyddiad dyledus. Mae'n ofynnol o dan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd bod ymyriadau'n cael eu cynnal o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad targed.

7.18 Aseswyd cofnodion arolygu sefydliadau cymeradwy mewn naw o'r deg achos, gan fod yr awdurdod wedi cofnodi'n anghywir ar ei gronfa ddata fod ymyriad wedi'i gynnal yn un o'i sefydliadau lle na chafodd ei gynnal.

7.19 Roedd gwybodaeth a gofnodwyd ar ffurflenni aide-memoire yn ystod yr arolygiadau diweddaraf o sefydliadau cymeradwy yn ddigonol i gadarnhau bod archwiliadau cwmpas llawn wedi'u cynnal a bod swyddogion wedi cynnal asesiadau trylwyr o gydymffurfiaeth busnesau â gofynion hylendid bwyd mewn tri achos.

7.20 Mewn pedair achos, cafodd gwybodaeth annigonol ynghylch gofynion penodol i'r cynnyrch ei chofnodi. Mewn un achos, nid oedd digon o wybodaeth i brofi a oedd gofynion strwythurol yn ddigonol i fodloni rhwymedigaethau statudol. Yn yr achos a oedd yn weddill, nid oedd digon o wybodaeth ar gael yn yr aide-memoire i ddangos bod asesiad trylwyr o gydymffurfiaeth wedi'i gynnal.

7.21 Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod swyddogion wedi asesu defnydd y busnes o farciau iechyd a dogfennau masnachol mewn tri achos. Yn yr un modd, mewn pedwar achos, nid oedd yr archwilwyr yn gallu gwirio bod marciau adnabod / iechyd deunyddiau crai wedi'u hasesu'n ddigonol. Yn yr achosion a oedd yn weddill, nid oedd archwilwyr yn gallu gwirio a oedd y gwiriadau hyn wedi'u cynnal o edrych ar gofnodion y swyddogion.

7.22 Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau, mewn pum achos, bod asesiad digonol wedi'i gynnal o hyfforddiant a thrafodaethau â sefydliadau sy'n trin bwyd ac eithrio gweithredwyr busnesau bwyd, lle y bo'n briodol. Yn yr achosion a oedd yn weddill, nid oedd digon o dystiolaeth i alluogi archwilwyr i wneud yn siŵr bod y gwiriadau hyn wedi'u cynnal.

7.23 Roedd y sgoriau risg a roddwyd i sefydliadau cymeradwy yn gyson â chanfyddiadau’r arolygiad ym mhob achos. Fodd bynnag, mewn un achos, nododd yr archwilwyr fod sefydliad wedi cael sgôr risg newydd heb fod yn destun ymyriad, yn groes i ofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

7.24 Nododd gweithdrefn ymyriadau bwyd yr awdurdod pryd y gellid defnyddio Strategaeth Orfodi Amgen (AES) ar gyfer sefydliadau categori E, a oedd yn cynnwys enghraifft o holiadur hunanasesu fel atodiad. Byddai'r weithdrefn yn elwa o gynnwys manylion ynghylch pa feini prawf fyddai'n sbarduno ymweliad arolygu ar ôl derbyn holiadur hunanasesu.

7.25 Dywedodd yr awdurdod nad oedd wedi gweithredu Strategaeth Orfodi Amgen (AES) yn y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.

***Argymhellion***

7.26 Dylai'r awdurdod:

(i) Sicrhau y caiff ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd eu cynnal ar yr amlderau sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1]

(ii) Cynnal ymyriadau / arolygiadau hylendid bwyd a chymeradwyo a chofrestru sefydliadau yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a'i weithdrefnau ei hun. Yn arbennig, sicrhau, lle bo'n berthnasol, fod sgorio risg ymyriadau a chamau dilynol yn cael eu cynnal yn gyson yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a gweithdrefnau lleol. [Y Safon – 7.2]

(iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal yn llawn â’r safonau sydd wedi’u pennu gan y gyfraith. [Y Safon – 7.3]

(iv) Sicrhau bod y gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer ymyriadau yn cael eu hadolygu i gynnwys cyfeiriad at y trefniadau lleol ar gyfer fflagio (*red flagging*), amserlenni ar gyfer ailymweliadau a chyfarwyddyd i swyddogion o ran p'un a ddylid cymryd samplau. Hefyd, diwygio'r weithdrefn gofnodedig ar gyfer sefydliadau cymeradwy i gynnwys trefniadau lleol ar gyfer cynnal ymyriadau a'r broses gymeradwyo. O ran Gweithdrefn y Strategaeth Orfodi Amgen, diwygio i gynnwys manylion ynghylch y wybodaeth a fyddai'n sbarduno ymweliad gan yr awdurdod. [Y Safon – 7.4]

(v) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed a/neu'r data a gasglwyd yn ystod arolygiad/ymyriad hylendid bwyd yn cael eu cofnodi’n amserol fel na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli. [Y Safon – 7.5]

*Ymweliadau Dilysu â Safleoedd Bwyd*

7.27 Yn ystod yr archwiliad, gwnaed ymweliadau dilysu â dau sefydliad bwyd gyda swyddogion awdurdodedig yr awdurdod a oedd wedi cynnal yr arolygiadau hylendid bwyd diwethaf. Prif amcan yr ymweliadau oedd ystyried effeithiolrwydd asesiadau'r awdurdod o gydymffurfiaeth y busnesau bwyd â gofynion cyfraith bwyd.

7.28 Roedd y swyddogion yn hyddysg am y busnesau ac yn gallu cyfleu dealltwriaeth briodol o'r risgiau diogelwch bwyd sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau ym mhob sefydliad. Dangosodd y swyddogion eu bod wedi cynnal arolygiad manwl a'u bod wedi asesu cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog mewn modd priodol, ac roeddent yn cynnig cyngor defnyddiol i'r gweithredwyr busnesau bwyd. Mewn un achos, nododd y swyddog nad oedd dŵr poeth ar gael yn y sefydliad ac ni wnaeth unrhyw ymrwymiad priodol i ailymweld y diwrnod canlynol.

***Safonau Bwyd***

7.29 Yn 2015/16, roedd yr awdurdod wedi adrodd trwy LAEMS bod 100% o fusnesau bwyd risg isel i risg uchel a oedd i fod i gael eu harolygu wedi cael eu harolygu. Roedd hyn yn gyson â'r flwyddyn flaenorol.

7.30 Roedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefn arolygu safonau bwyd a oedd ar y cyfan yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Fodd bynnag, roedd y weithdrefn yn gofyn am ddefnyddio cynllun sgorio risg nad yw'n benodol i fwyd. Am y rheswm hwn, ni ellid gwneud asesiad mewn perthynas ag amlder yr ymyriadau yn erbyn gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Byddai'r weithdrefn yn elwa o gael ei diwygio i sicrhau bod yr awdurdod yn gweithredu cynllun sgorio risg sy'n unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

7.31 Roedd yr awdurdod yn defnyddio aides-memoire ar gyfer arolygiadau risg uchel a risg isel ynghyd â ffurflen adrodd am ymweliad a ddatblygwyd gan yr awdurdod i'w defnyddio gan swyddogion wrth gofnodi canfyddiadau arolygiadau. Roedd y ffurflenni, o'u defnyddio gyda'i gilydd, yn cynnwys digon o feysydd er mwyn gallu cofnodi sylwadau a wnaed a/neu ddata a gasglwyd wrth gynnal asesiad llawn o gydymffurfiaeth busnes â'r gofynion sy'n berthnasol i safonau bwyd.

7.32 Dewiswyd deg ymyriad safonau bwyd i'w harchwilio. Canfuwyd bod dwy o'r ffeiliau hyn yn ymwneud â sefydliadau heb eu sgorio neu ymweliadau nad oeddent yn gysylltiedig â bwyd ac felly nid oedd modd eu hystyried. Cynhaliwyd archwiliad o'r cofnodion a oedd yn weddill wedi'u cadw ar gronfa ddata'r awdurdod ac ar ffurf copi caled ar gyfer wyth sefydliad bwyd yr adroddwyd y buont yn ddarostyngedig i arolygiadau safonau bwyd.

7.33 Roedd cofnodion o'r sylwadau yn ymwneud â'r arolygiad diweddaraf ar gael ac yn ddarllenadwy ymhob achos a archwiliwyd. Mewn chwe achos, cafodd sylwadau swyddogion eu nodi gan ddefnyddio aides-memoire newydd yr awdurdod ar gyfer arolygiadau safonau bwyd. Cynhaliwyd y ddau ymyriad a oedd yn weddill cyn diwygio'r weithdrefn. O ganlyniad, nid oedd y ffurflenni cyfredol wedi'u defnyddio ac fe luniwyd y cofnodion gan ddefnyddio ffurflenni hŷn.

7.34 Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod swyddogion wedi cynnal asesiadau o gydymffurfiaeth â gofynion cyfansoddiadol, cyflwyno a labelu, galw cynnyrch yn ôl a'r gallu i olrhain bwyd mewn chwe achos. Fodd bynnag, roedd gan un o'r achosion hyn wybodaeth gyfyngedig mewn perthynas â chyflwyno / labelu oherwydd nad oedd y swyddog wedi llwyddo i gasglu digon o wybodaeth. Yn y ddau achos a oedd yn weddill, ni chofnodwyd digon o fanylion ar yr hen fath o ffurflenni. Mewn chwe achos, roedd tystiolaeth ar gael i ddangos y bu ymweliadau'n ddirybudd, ac nid oedd y ddwy ffeil a oedd yn weddill yn cynnwys digon o dystiolaeth. Trafododd yr archwilwyr fod cyflwyno'r ffurflenni newydd wedi gwella'n sylweddol lefel y wybodaeth a gofnodwyd gan swyddogion.

7.35 Ar y cyfan, cofnodwyd digon o fanylion i ddangos bod asesiad trylwyr o ofynion safonau bwyd wedi'i gynnal mewn achosion lle y defnyddiwyd ffurflenni newydd. Ym mhob achos namyn un, roedd yr archwilwyr yn gallu sefydlu'r math o weithgarwch a wnaed a lle'r oedd swyddogion perthnasol wedi cynnal asesiad o Systemau Rheoli Ansawdd mewn perthynas â safonau bwyd. Yn yr achos a oedd yn weddill, ni chofnodwyd digon o wybodaeth ar ffeiliau'r sefydliad.

7.36 Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod swyddogion wedi cyfleu maint, graddfa a chwmpas y busnes mewn un achos. Yn yr achosion a

oedd yn weddill, ni chofnodwyd digon o wybodaeth i ddangos maint neu raddfa'r gweithrediadau.

7.37 Mewn achosion lle y bu ymyriadau blaenorol, ar y cyfan, roedd tystiolaeth ar gael i gadarnhau bod camau dilynol priodol wedi'u cymryd lle'r oedd tramgwyddau wedi'u nodi. Fodd bynnag, mewn un achos nid oedd yr archwilwyr yn gallu gwirio bod yr awdurdod wedi uwchgyfeirio'r camau gorfodi lle nodwyd materion parhaus oherwydd nad oedd digon o fanylion wedi'u cofnodi ar y ffeil.

7.38 O ran yr arolygiadau diweddaraf, roedd yr archwilwyr yn gallu gwirio bod camau priodol wedi'u cymryd gan ystyried canfyddiadau'r arolygiadau. Mewn achosion lle'r oedd cofnodion yn nodi bod angen gweithredu dilynol; roedd tystiolaeth ar gael i gadarnhau bod hyn wedi digwydd ym mhob achos.

7.39 Ym mhob achos, roedd sgoriau risg wedi'u dyfarnu'n anghywir yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd gan nad oedd ystyriaethau yn seiliedig ar safonau bwyd yn unig.

7.40 Nid oedd yr awdurdod wedi cofnodi ei ddull tuag at gynnal Strategaeth Orfodi Amgen. Fodd bynnag, nododd yr awdurdod ei fod wedi ymgymryd â Strategaeth Orfodi Amgen ac fe ddewiswyd 10 ffeil i'w harchwilio.

7.41 Ar ôl adolygu'r ffeiliau a ddewiswyd, sefydlodd yr archwilwyr nad oedd y gweithgarwch a adroddwyd yn Strategaeth Orfodi Amgen yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, gan fod y ffeiliau'n gysylltiedig â negeseuon e-bost a anfonwyd i fusnesau bwyd mewn perthynas â rhaglen samplu.

***Argymhellion***

7.42 Dylai'r awdurdod:

(i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlder lleiaf a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1]

(ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog i gynnwys defnyddio cynllun sgorio risg priodol. [Y Safon – 7.2]

(iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â'r safonau sydd wedi'u pennu gan y gyfraith. [Y Safon – 7.3]

(iv) Diwygio ei weithdrefnau ymyrryd i roi canllawiau ar ba sefydliadau sy'n gymwys i'w cynnwys mewn Strategaethau Gorfodi Amgen a'r broses i'w dilyn pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i ddefnyddio'r math hwn o ymyriad. [Y Safon – 7.4].

(v) Sicrhau bod sylwadau a wneir a/neu'r data a gesglir yn ystod arolygiad/ymyriad safonau bwyd yn cael eu cofnodi'n amserol fel na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli.
[Y Safon – 7.5]

*Ymweliad Dilysu â Sefydliad Bwyd*

7.43 Aethpwyd ar ymweliad dilysu ag un sefydliad bwyd gyda swyddog awdurdodedig yr awdurdod a oedd wedi cynnal yr arolygiad safonau bwyd diweddaraf. Prif amcan yr ymweliad hwn oedd ystyried effeithiolrwydd asesiad yr awdurdod o systemau'r busnes er mwyn sicrhau bod bwyd yn bodloni gofynion cyfraith safonau bwyd.

7.44 Roedd y swyddog yn gallu dangos ei wybodaeth am y busnes a rhoi sicrwydd i'r archwilwyr fod asesiadau o ofynion safonau bwyd wedi'u cynnal fel rhan o'r arolygiad. Trafododd yr archwilwyr bwysigrwydd gwirio statws Prif Awdurdod sefydliadau cyn mynd ati i ymyrryd.

## 8 Cwynion am Fwyd a Sefydliadau Bwyd

8.1 Roedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefnau ar wahân ar gyfer cwynion a cheisiadau gwasanaeth hylendid bwyd a safonau bwyd a oedd yn amlinellu'r meini prawf ar gyfer ymchwiliadau. Roedd y weithdrefn hylendid bwyd yn seiliedig ar dempled a gynhyrchwyd gan Banel Arbenigol Diogelwch Bwyd Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru (WHoEH) ac roedd y weithdrefn safonau bwyd yn rhan o'r system rheoli ansawdd.

8.2 Yn gyffredinol, roedd cynnwys y ddwy weithdrefn yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Fodd bynnag, nid oedd y weithdrefn leol ar gyfer hylendid bwyd yn cwmpasu trefniadau lleol ar gyfer ymdrin â chwynion ynghylch cyflwr sefydliadau. Trafododd yr archwilwyr y budd o adolygu a diweddaru gweithdrefnau i gynnwys y trefniadau hyn.

***Hylendid Bwyd***

8.3 Archwiliwyd cofnodion yn ymwneud â saith cwyn hylendid bwyd a ddaeth i law'r awdurdod. Sefydlodd yr archwilwyr fod yr holl gwynion wedi'u gweithredu'n brydlon ac o fewn yr amseroedd ymateb targed a nodwyd yn y gronfa ddata.

8.4 Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod camau priodol wedi'u cymryd yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymchwiliad ym mhob achos ond dau. Nid oedd digon o dystiolaeth ar gael i ddangos bod rhagor o sylw wedi'i roi i'r ddwy gwyn yn ymwneud â safleoedd bwyd heb eu cofrestru, ar ôl y camau gweithredu cychwynnol.

8.5 Lle y bo'n berthnasol, roedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod yr achwynwyr wedi cael gwybod am ganlyniad yr ymchwiliad ym mhob achos ond dau.

***Safonau Bwyd***

8.6 Archwiliwyd cofnodion yn ymwneud â saith cwyn safonau bwyd a ddaeth i law'r awdurdod. Sefydlodd yr archwilwyr bod yr awdurdod wedi ymchwilio i bob cwyn yn drylwyr a bod camau dilynol priodol wedi'u cymryd lle bo angen.

8.7 Mewn pump achos, ymchwiliwyd i gwynion o fewn yr amserlenni a nodwyd yn y gweithdrefnau lleol.  Mewn tri achos, nid oedd tystiolaeth ar gael i ddangos y rhoddwyd gwybod i'r achwynydd am ganlyniad yr ymchwiliad yn unol â'r weithdrefn leol.

***Argymhellion***

8.8 Dylai'r awdurdod:

(i) Diwygio'r weithdrefn gwynion hylendid bwyd i gynnwys trefniadau lleol ar gyfer ymdrin â chwynion ynghylch cyflwr safleoedd. [Y Safon – 8.1]

(ii) Sicrhau bod cwynion neu geisiadau gwasanaeth hylendid bwyd a safonau bwyd yn cael eu gweithredu yn unol â'r gofynion a nodir yn y gweithdrefnau lleol. [Y Safon – 8.2]

## 9 Cynllun y Prif Awdurdod ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref

9.1 Gosodwyd ymrwymiad yr awdurdod i'r Cynllun Prif Awdurdod ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref yn ei Bolisi Gorfodi a'i Gynllun Gwasanaeth.

9.2 Hysbyswyd yr archwilwyr bod swyddogion gorfodi cyfraith bwyd wedi cael cyfrineiriau i'w galluogi i gael mynediad at wefan y Prif Awdurdod.

9.3 Roedd ystyriaethau Prif Awdurdod ac Awdurdod Cartref wedi'u cynnwys mewn rhai gweithdrefnau eraill, er enghraifft cwynion am fwyd, digwyddiadau bwyd, ymyriadau safonau bwyd a gweithdrefnau samplu hylendid bwyd.

9.4 Er nad oedd gan yr awdurdod unrhyw gytundebau Prif Awdurdod ar waith, roedd yr archwilwyr yn gallu gwirio, yn ei allu fel awdurdod gorfodi, ei fod ar y cyfan yn ystyried canllawiau'r Prif Awdurdod ac wedi dilyn materion o bryder gyda Phrif Awdurdodau fel y bo'n briodol.

9.5 Nid oedd gan yr awdurdod unrhyw gytundebau Awdurdod Cartref ffurfiol ar waith, ond roedd yn bwynt cyswllt i lawer o weithgynhyrchwyr fel yr awdurdod gwreiddiol. Dangosodd cofnodion a archwiliwyd yn ystod yr archwiliad bod cyngor amserol a chywir wedi ei roi i fusnesau, a bod yr awdurdod wedi ymateb yn briodol i geisiadau am wybodaeth gan awdurdodau lleol eraill.

## 10 Cyngor i Fusnesau

10.1 Mae'r awdurdod wedi bod yn rhagweithiol o ran darparu cyngor ar hylendid bwyd a safonau bwyd i fusnesau. Roedd tystiolaeth bod cyngor wedi'i roi ar lafar ac yn ysgrifenedig yn ystod ymyriadau ac ar gais. Adroddodd yr awdurdod fod 372 ac 87 o geisiadau am wybodaeth a chyngor wedi dod i law yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gyfer y gwasanaeth hylendid bwyd a safonau bwyd, yn y drefn honno.

10.2 Rhoddodd yr awdurdod gyngor cyfyngedig i fusnesau bwyd ar ei gwefan mewn perthynas â hylendid bwyd a safonau bwyd. Hefyd, cynhaliwyd nifer o brosiectau cyngor i fusnesau, gan gynnwys:

- Darparu hyfforddiant dilysu a gwirio i 15 o sefydliadau cymeradwy;
- Cynrychiolaeth gan y gwasanaeth hylendid bwyd yn Uwchgynhadledd Twristiaeth Sir Gaerfyrddin i roi cyngor i fusnesau sy'n ymwneud â'r fasnach dwristaidd;
- Rhoi cyngor i wasanaeth caffael ysgolion yr awdurdod ar drefniadau ar gyfer caffael bwyd diogel;
- Ymweliadau cynghori ar safonau bwyd mewn 21 o sefydliadau bwyd;
- Rhoi cyngor i fenter Gwastraff Bwyd Byddin yr Iachawdwriaeth ar reoli bwyd diogel mewn banciau bwyd mewn cysylltiad ag archfarchnad genedlaethol;
- Datblygu pecyn Canllawiau Hylendid Bwyd ar gyfer lleoliadau gofal plant / clybiau ar ôl ysgol / clybiau gwyliau / gwarchodwyr plant ac ati.;
- Anfon e-bost cyffredinol i 131 o fusnesau ar ddefnyddio lliwiadau bwyd; a,
- Datblygu trefniadau cymeradwyo gwerthwyr i sicrhau bod bwyd diogel yn cael ei gaffael ar gyfer trefnwyr gwyliau yn y sir.

## 11 Cronfa Ddata Sefydliadau Bwyd

11.1 Mae gan yr awdurdod weithdrefn gofnodedig ar gyfer cynnal a chadw'r cronfeydd data hylendid bwyd a safonau bwyd. Rhoddwyd gwybod i'r archwilwyr bod y gronfa ddata yn cael ei diweddaru gan ddefnyddio gwybodaeth gan weithredwyr busnesau bwyd, ceisiadau gwasanaeth, gwybodaeth / sylwadau swyddogion, ac adrannau eraill y cyngor.

11.2 Dewisodd yr archwilwyr 10 sefydliad bwyd ar hap yn ardal yr awdurdod o'r rhyngrwyd. Roedd pob un wedi'i gynnwys ar gronfa ddata'r awdurdod ac yn ei raglenni arolygu bwyd. Fodd bynnag, rhoddwyd sgôr risg gan y gwasanaeth safonau bwyd i un sefydliad heb gael arolygiad ac nid oedd dyddiad ar gyfer ymyriad nesaf wedi'i bennu i sefydliad arall.

11.3 Wrth ddadansoddi'r gronfa ddata, sylwyd bod rhai gwallau yn ymwneud â nifer fach o sgoriau risg hylendid bwyd a 82 o ddyddiadau arolygu ar y gweill ar gyfer hylendid bwyd. Roedd gan 12 o'r rhain ddyddiadau arolygu ar y gweill a oedd yn hirach na'r dyddiad a ddylid fod wedi'i ddyrannu. Cafodd nifer o sefydliadau sgoriau risg gan y gwasanaeth safonau bwyd heb gael arolygiad. Ymhellach, nid oedd yn bosibl gwahaniaethu rhwng sefydliadau ar y gronfa ddata a oedd wedi cael ymyriad safonau bwyd a'r rhai hynny nad oeddent wedi cael gweithgarwch ymyriad bwyd. Mae rheoli'n gywir y rhaglen o ymyriadau safonau bwyd ar y gweill yn her. Gallai rhai o'r anghysondebau yn y gronfa ddata effeithio ar y ffurflen monitro gorfodi flynyddol i'r ASB a'r sgoriau CSHB ar gael ar wefan yr ASB ac mewn sefydliadau bwyd.

11.4 Wrth archwilio ffeiliau gorfodi, nodwyd bod cytundeb cau gwirfoddol wedi'i ffurfio â busnes bwyd, ond ni fewnbynnwyd y gweithgaredd hwn i'r gronfa ddata. Gallai hyn effeithio ar y canlyniadau monitro gorfodi blynyddol a ddarperir i'r ASB.

***Argymhellion***

11.5 Dylai'r awdurdod:

(i) Sicrhau bod data hylendid bwyd a sgoriau risg a dyddiadau'r arolygiadau yn cael eu cofnodi a'u cadw'n gywir ar gronfa ddata'r awdurdod. Hefyd, sicrhau mai dim ond y sefydliadau hynny sydd wedi cael arolygiad safonau bwyd sy'n cael eu cofnodi a'u sgorio felly ar y gronfa ddata. [Y Safon – 11.1]

## 12 Arolygu a Samplu Bwyd

12.1 Roedd Cynllun Gwasanaeth yr awdurdod yn cynnwys nodau ac amcanion a oedd yn cyfeirio'n benodol at fonitro a samplu bwyd a gwelyau pysgod cregyn i wirio cydymffurfiaeth â gofynion statudol. Roedd y rhaglen yn cynnwys amcangyfrifiad o nifer y samplau a fyddai'r awdurdod yn eu cymryd yn 2016/17.

12.2 Roedd polisïau ar wahân mewn perthynas â gweithgarwch samplu safonau bwyd a hylendid bwyd hefyd wedi'u datblygu. O ran y ddau wasanaeth, trafododd yr archwilwyr y budd o ddarparu rhagor o fanylion am samplu y tu allan i oriau a datblygu'r polisi samplu safonau bwyd i gynnwys gwybodaeth am hysbysu'r Prif Awdurdod a'r Awdurdod Cartref/Gwreiddiol am y canlyniadau. Byddai'r awdurdod hefyd yn elwa o ddarparu rhagor o fanylion am ei bolisi yn ymwneud â monitro'r modd y caiff bwyd ei wirio, ymchwiliadau arbennig a bwyd wedi'i fewnforio.

12.3 Datblygwyd a gweithredwyd rhaglenni ar gyfer archwilio microbiolegol a dadansoddi cemegol ar gyfer bwyd a oedd yn berthnasol i flaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol. Trafododd yr archwilwyr y budd o gynnwys manylion am nifer y samplau i'w cymryd ar gyfer cynhyrchion penodol fesul mis yn rhan o'i gynllun samplu microbiolegol. Yn ogystal ag ariannu ei raglen samplu ei hun, roedd yr awdurdod wedi elwa ar arian grant gan yr ASB ar gyfer samplu safonau bwyd.

12.4 Datblygwyd gweithdrefnau ar gyfer samplu microbiolegol mewn bwyd, a oedd yn rhannol yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol. Fodd bynnag, trafododd yr archwilwyr pa mor fuddiol y byddai i'r awdurdod ddarparu manylion yn ymwneud â threfniadau lleol ar gyfer samplu yn rhan o'r weithdrefn hon. Nododd yr archwilwyr na chafodd gwybodaeth yn ymwneud â'r offer penodol sydd eu hangen i samplu, trefniadau storio a chludo'r awdurdod, gwybodaeth am drefniadau'r awdurdod ar gyfer samplu bwyd poeth/oer, bwyd solet/wedi'i rewi a bwyd hylifol mewn swmp na threfniadau'r awdurdod yn ymwneud â pharhad tystiolaeth ei nodi. At hynny, nid oedd manylion yn ymwneud â samplu pysgod cregyn ar gael. Trafododd yr archwilwyr y budd o roi arweiniad i swyddogion o ran y dogfennau sydd eu hangen i gyflwyno samplau. Nododd yr archwilwyr nad oedd yr awdurdod wedi cofnodi gweithdrefn ar gyfer samplu safonau bwyd.

12.5 Roedd yr awdurdod wedi penodi Dadansoddwr Cyhoeddus i ddadansoddi bwyd ac roedd ganddo gytundeb ffurfiol gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer archwilio bwyd yn ficrobiolegol. Roedd y labordai ar restr gydnabyddedig y DU o Labordai Swyddogol Dynodedig.

**Hylendid Bwyd**

12.6 Archwiliwyd cofnodion yn ymwneud â phump sampl a gyflwynwyd i'w harchwilio'n ficrobiolegol. Nodwyd bod pob un ohonynt yn foddhaol. Dywedodd yr awdurdod nad oedd unrhyw ganlyniadau anfoddhaol yn y ddwy flynedd cyn yr archwiliad. Casglwyd pob sampl gan swyddogion a hyfforddwyd ac a awdurdodwyd yn briodol, ac roedd canlyniadau ar gael ar ffeiliau sefydliadau bwyd.

12.7 Ym mhob achos, rhoddwyd gwybod i fusnesau am y canlyniadau.

**Safonau Bwyd**

12.8 Cynhaliwyd archwiliad o'r cofnodion yn ymwneud â 10 sampl safonau bwyd anfoddhaol. Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau ym mhob achos bod y samplau wedi'u casglu'n briodol gan swyddogion a hyfforddwyd ac a awdurdodwyd, ac roedd y canlyniadau ar gael ar ffeiliau sefydliadau bwyd.

12.9 Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod gwaith samplu wedi'i gyflawni'n unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd mewn chwe achos. Yn yr achosion a oedd yn weddill, nid oedd digon o dystiolaeth i alluogi archwilwyr i gadarnhau bod camau dilynol priodol wedi'u cymryd. Pan oedd hyn yn berthnasol, rhoddwyd gwybod i'r perchennog, y mewnforiwr neu'r gweithgynhyrchwr yn ysgrifenedig am y canlyniadau anfoddhaol. Lle y bo'n berthnasol, roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod yr awdurdod wedi cysylltu â'r Prif Awdurdod, yr Awdurdod Cartref neu'r Awdurdod Gwreiddiol ym mhob achos ond un.

***Argymhellion***

12.10 Dylai'r awdurdod:

(i) Diwygio a gweithredu ei bolisi samplu ar gyfer archwilio bwyd yn ficrobiolegol a'i ddadansoddi yn gemegol yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Yn benodol, dylid cynnwys rhagor o fanylion mewn perthynas â samplu y tu allan i oriau ar gyfer y ddau wasanaeth. Dylai'r polisi samplu safonau bwyd gynnwys gwybodaeth am y dull o hysbysu'r Prif Awdurdod a'r Awdurdod Cartref/Gwreiddiol a'r polisi o ran monitro'r modd y caiff bwyd ei wirio, ymchwiliadau arbennig a bwyd wedi'i fewnforio. [Y Safon – 12.4]

(ii) Diwygio a gweithredu ei raglen samplu ar gyfer archwilio bwyd yn ficrobiolegol i gynnwys manylion penodol am nifer y bwydydd i'w samplu. [Y Safon – 12.4]

(iii) Diwygio a gweithredu ei weithdrefn gofnodedig ar gyfer samplu bwyd yn ficrobiolegol i gynnwys gwybodaeth am yr offer penodol sydd eu hangen i samplu, trefniadau storio a chludo'r awdurdod, gwybodaeth am drefniadau'r awdurdod ar gyfer samplu bwyd poeth/oer, bwyd solet/wedi'i rewi a bwyd hylifol mewn swmp a threfniadau'r awdurdod yn ymwneud â thystiolaeth barhaus yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 12.5]

(iv) Cofnodi a rhoi ar waith gweithdrefn ar gyfer samplu bwyd i'w ddadansoddi'n gemegol yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 12.5]

(v) Cymryd yr holl gamau priodol yn unol â'i Bolisi Gorfodi pan nad ystyrir bod canlyniadau samplau'n foddhaol. [Y Safon – 12.7]

## 13 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd

13.1 Roedd yr awdurdod wedi nodi swyddog arweiniol ar gyfer clefydau trosglwyddadwy ynghyd â swyddogion dynodedig eraill er mwyn helpu i ymchwilio ac asesu hysbysiadau a oedd yn dod i law'r awdurdod.

13.2 Cafodd Cynllun Achosion (*Outbreaks*) Cymru, yn cynnwys gwybodaeth am reoli achosion o glefydau trosglwyddadwy, ei gymeradwyo i'w fabwysiadu gan uwch swyddog yr awdurdod. Roedd y Cynllun wedi'i gynhyrchu gan grŵp aml-asiantaeth, a oedd yn cynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru. Nododd archwilwyr nad oedd y cynllun yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer awdurdodau lleol cyfagos ac asiantaethau eraill sydd â rôl mewn rheoli achosion.

13.3 Roedd gweithdrefn ar gyfer ymchwilio i hysbysiadau o achosion achlysurol o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd wedi'i llunio gan yr awdurdod, a ategwyd gan ystod o daflenni cynghori ar bathogenau penodol a holiaduron ymchwilio. Trafododd yr archwilwyr y byddai'r weithdrefn yn elwa o gael ei hadolygu i gynnwys gwybodaeth bellach mewn perthynas â chamau dilynol ar gyfer holiaduron post heb eu dychwelyd ac ymchwilio i achosion o Campylobacter.

13.4 Roedd gan yr awdurdod drefniadau anffurfiol ar waith i ymateb i hysbysiadau o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd a ddaw i law y tu allan i oriau gwaith arferol gan gynnwys trefniadau cyswllt â swyddog cymwys priodol ar sail ewyllys da. Ni phrofwyd y trefniadau hyn fel rhan o'r archwiliad.

13.5 Dewiswyd hysbysiadau yn ymwneud ag wyth achos achlysurol o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd i'w harchwilio. Mewn dau achos yn ymwneud â hysbysiadau o Campylobacter, sefydlodd yr archwilwyr nad oedd yr awdurdod wedi ymchwilio iddynt fel mater o drefn. Fodd bynnag, anfonwyd llythyr at y rhai yr achoswyd arnynt yn rhoi cyngor. Hysbyswyd yr archwilwyr bod yr awdurdod wrthi'n gweithio ar fynd i'r afael â'r mater hwn trwy ddatblygu holiadur ar-lein.

13.6 Mewn pump o'r chwe achos a oedd yn weddill, roedd holiaduron ar gael ac wedi'u cwblhau a oedd yn cadarnhau bod swyddogion wedi cyfweld â phobl heintiedig a bod ymchwiliadau trylwyr ac amserol gan fwyaf wedi'u cynnal yn unol â gweithdrefnau'r awdurdod. Mewn un achos, nododd yr

archwilwyr fod tystiolaeth gyfyngedig wedi'i chofnodi ac na lynwyd wrth y gweithdrefnau. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys cysylltiadau asymptomatig mewn aelwydydd yn gwrthod rhoi samplau sgrinio a'r awdurdod yn peidio â chynnal ymweliadau dilynol â safleoedd cysylltiedig lle'r oedd ffactorau risg eraill yn bresennol.

13.7 Yn yr achos a oedd yn weddill yn ymwneud â haint risg uchel, nid oedd holiadur wedi'i gwblhau ar gael ond roedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod yr awdurdod wedi cysylltu â'r unigolyn yr achoswyd arno yn ysgrifenedig. Ni chofnodwyd manylion y camau dilynol ar ôl cael ymateb.

13.8 Dywedodd yr awdurdod nad oedd unrhyw achosion a gludwyd gan fwyd wedi digwydd yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.

13.9 Lle y bo ar gael, roedd cofnodion mewn perthynas â rheoli ac ymchwilio i glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael eu cadw gan yr awdurdod am o leiaf chwe blynedd.

***Argymhelliad***

13.10 Dylai'r awdurdod:

(i) Diwygio'i Gynllun Achosion i gynnwys manylion cyswllt awdurdodau lleol cyfagos ac asiantaethau eraill sydd â rôl rheoli achosion. [Y Safon – 13.1]

(ii) Adolygu'r weithdrefn ar gyfer ymchwilio i achosion achlysurol o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd er mwyn sicrhau bod yr awdurdod yn ymchwilio i bob hysbysiad yn unol â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog, gan gynnwys Campylobacter. Sicrhau bod y weithdrefn yn cael ei gweithredu’n llawn i gynnwys ymchwilio i bob hysbysiad a chymryd camau dilynol. [Y Safon – 13.2]

## 14 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd

14.1 Roedd yr awdurdod wedi datblygu polisi hylendid bwyd a gweithdrefn safonau bwyd ar gyfer ymdrin â digwyddiadau a rhybuddion bwyd, a oedd yn cynnwys rhybuddion bwyd yn dod i'r amlwg o fewn ei ardal.

14.2 Roedd yr archwilwyr yn gallu gwirio bod sampl o bump rhybudd bwyd er gweithredu diweddar a ddaeth i law'r awdurdod gan yr ASB wedi'u derbyn a'u gweithredu yn unol â'r cyfarwyddiadau.

14.3 Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod yr awdurdod yn ymwybodol o'r gofynion i hysbysu'r ASB am unrhyw beryglon bwyd difrifol lleol, neu ddim yn lleol, sy'n digwydd yn eu hardal ac roeddent wedi gwneud hynny yn ddiweddar pan roedd angen.

14.4 Roedd y camau a gymerwyd gan yr awdurdod wedi'u cofnodi ac roedd gohebiaeth, gan gynnwys negeseuon e-bost swyddogion yn ymwneud â rhybuddion bwyd, wedi'u cynnal yn gyffredinol.

## 15 Gorfodi

15.1 Datblygodd yr awdurdod bolisi gorfodi cyffredinol yn 2009 a oedd yn berthnasol i wasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd. Hefyd, datblygwyd polisi gorfodi gweithredol ar gyfer safonau bwyd. Gwnaed diwygiadau i'r polisi gorfodi cyffredinol yn 2012 ond cynghorwyd yr archwilwyr nad oedd y fersiwn hon yn cael ei defnyddio. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y naill bolisi wedi'i gymeradwyo'n briodol. At hynny, nid oedd y polisi wedi'i gyhoeddi ar wefan yr awdurdod.

15.2 Roedd polisi 2009 yn hyrwyddo dull graddedig o orfodi, ac yn gyffredinol roedd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol eraill. Roedd y polisi'n darparu meini prawf ar gyfer gweithredu anffurfiol, hysbysiadau statudol, gweithredoedd ffurfiol eraill, cyflwyno rhybuddion syml ac erlyniadau. Cyfeiriodd y polisi at y cynlluniau Prif Awdurdod ac Awdurdod Cartref.

15.3 Nid oedd dull yr awdurdod tuag at ymdrin ag achosion o ddiffyg cydymffurfio mewn sefydliadau lle'r awdurdod ei hun oedd y gweithredwr busnes bwyd wedi'i gofnodi yn y polisi.

15.4 Roedd gweithdrefnau ar gyfer diddymu neu wahardd cymeradwyaethau wedi'u cofnodi yn y weithdrefn safleoedd cymeradwy, ac roedd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

15.5 Roedd nifer o weithdrefnau gorfodi wedi'u datblygu ar gyfer y gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd a oedd yn manylu ar y camau gorfodi sydd ar gael.

15.6 Roedd gweithdrefnau gorfodi hylendid bwyd yr awdurdod yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer Hysbysiadau Gwella Hylendid (HIN), Hysbysiadau Gwahardd Hylendid Brys (HEPN), Hysbysiadau a Gorchmynion Gwahardd, Hysbysiadau Camau Unioni (RAN), Rhybuddion Syml, erlyniadau, ildio gwirfoddol a chytundebau cau gwirfoddol. Roedd y gweithdrefnau hylendid yn seiliedig ar dempledi Panel Arbenigol Diogelwch Bwyd Cymru Gyfan ac yn gyffredinol roeddynt yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Nid oedd gan yr awdurdod weithdrefn ar gyfer gorfodi mewndirol ar gyfer bwyd wedi'i fewnforio.

15.7 Trafododd yr archwilwyr y budd o adolygu'r gweithdrefnau HIN a RAN i gynnwys cyfarwyddiadau ar yr ymagwedd leol at y dull a chofnod y gwasanaeth, gwiriadau ar gydymffurfiaeth a'r defnydd o dempledi priodol.

15.8 Roedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefn ar gyfer cadw, atafaelu ac ardystio bwyd anniogel ar gyfer y gwasanaeth hylendid bwyd. Yn ddiweddar, datblygodd y gwasanaeth safonau bwyd weithdrefn ar gyfer atafaelu a chadw bwyd anniogel. Yn gyffredinol, roedd y gweithdrefnau hyn yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, ond byddent yn elwa o gael eu datblygu ymhellach i gynnwys manylion am y broses i'w dilyn, defnyddio hysbysiadau a dogfennau templed cysylltiedig a'r trefniadau lleol ar gyfer dod â bwyd gerbron Ynad Heddwch a dinistrio a gwaredu bwyd.

15.9 Nododd archwiliad o gofnodion cronfa ddata nad oedd unrhyw sefydliadau â sgôr hylendid bwyd '0' ar adeg yr archwiliad. Cyn yr archwiliad, nid oedd yr awdurdod wedi adrodd unrhyw achosion lle'r oedd sefydliadau wedi cau'n wirfoddol neu'n ffurfiol.

15.10 Adroddodd yr awdurdod mewn gwybodaeth cyn yr archwiliad fod y camau gorfodi ffurfiol canlynol wedi'u cymryd yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad:

- 50 o Hysbysiadau HIN;
- 2 Hysbysiad RAN;
- 5 Hysbysiad Cadw Bwyd;
- 4 Ardystiad o fod yn anniogel;
- 1 achos o atafaelu bwyd;
- 2 achos o ildio bwyd yn wirfoddol;
- 2 Rhybudd Syml;
- 2 benderfyniad erlyn

15.11 Cafodd cofnodion yn ymwneud â 10 HIN eu dewis i'w harchwilio. Ym mhob achos, roedd tystiolaeth ar gael i ddangos y cyflwynwyd yr hysbysiadau HIN i'r person cywir a bod y tramgwydd wedi'i fanylu'n glir ynghyd ag amserlen briodol ar gyfer cyflawni cydymffurfiaeth. Ar y cyfan, roedd y gofynion deddfwriaethol perthnasol wedi'u dyfynnu'n gywir ar yr hysbysiadau HIN. Fodd bynnag, ni ddarparwyd y cyfeiriad deddfwriaethol penodol mewn un achos.

15.12 Ar y cyfan, roedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod HIN wedi bod yn gam gweithredu priodol. Fodd bynnag, mewn tri achos nid oedd tystiolaeth ddigonol i ddangos bod dull graddedig tuag at orfodi wedi'i gymryd, yn unol â'r polisi gorfodi. Nododd yr archwilwyr fod yr wybodaeth am yr hawl i apelio wedi'i chynnwys ar bob hysbysiad HIN. Fodd bynnag, ni chafodd enw a chyfeiriad y llys lleol eu cynnwys, yn groes i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

15.13 Mewn wyth achos, roedd yr archwilwyr yn gallu sefydlu bod gwiriadau cydymffurfiaeth amserol a chamau gweithredu dilynol priodol wedi'u cymryd ac mewn pump achos, cafodd llythyrau yn cadarnhau cydymffurfiaeth eu hanfon i'r gweithredwr busnesu bwyd yn unol â gweithdrefn yr awdurdod. Mewn pump achos, roedd copïau cywir o'r hysbysiad wedi'u llofnodi gan y swyddog ar gael, ac mewn tri achos, roedd tystiolaeth o ddull y gwasanaeth ar gael.

15.14 Cynhaliwyd gwiriadau archwilio o gofnodion yn ymwneud â dau RAN a oedd yn cadarnhau bod y penderfyniad i gyflwyno RAN yn briodol. Mewn un achos, cafodd cytundeb ysgrifenedig i gau sefydliad yn wirfoddol ei dderbyn ar yr un diwrnod, gan nodi nad oedd cyflwyno RAN yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

15.15 Ym mhob achos, roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod hysbysiadau wedi'u llofnodi gan y swyddog a dystiodd y tramgwydd, yn glir ac yn nodi natur y broblem. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion ar gael i gadarnhau bod y derbynwyr wedi cael y manylion cyswllt ar gyfer y llys lleol yn achos apêl.

15.16 Mewn un achos, roedd yr archwilwyr yn gallu gwirio bod tystiolaeth o wasanaeth. Serch hynny, nid oedd yr archwilwyr yn gallu gwirio bod RAN wedi'i gyflwyno i'r gweithredwr busnes bwyd cywir oherwydd diffyg manylion cofrestru ar ffeil y sefydliad. Yn yr achos arall, roedd yr archwilwyr yn gallu gwirio bod yr hysbysiad wedi'i gyflwyno i'r gweithredwr busnes bwyd cywir, ond nid oedd tystiolaeth o wasanaeth ar gael.

15.17 Roedd tystiolaeth bod gwiriadau cydymffurfiaeth amserol wedi'u cynnal a bod yr hysbysiadau wedi'u tynnu'n ôl yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

15.18 Mewn pedwar o'r pum achos lle cafodd bwyd ei gadw, roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau y bu cadw'n gam gweithredu priodol i atal y bwyd rhag bod yn rhan o'r gadwyn fwyd i bobl tra'n aros am ymchwiliad pellach gan yr awdurdod. Yn yr achos a oedd yn weddill, nid oedd yr hysbysiad cadw ar gael i'w archwilio.

15.19 Lle'r oedd hysbysiadau ar gael, roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod manylion y bwydydd i'w cadw wedi'u nodi'n glir ac yn yr un achos perthnasol cafodd hysbysiad tynnu'n ôl ei gyflwyno yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Mewn tri o'r pedwar achos, roedd y trefniadau i sicrhau bod cyflenwad digonol o'r bwyd yn foddhaol. Yn yr achos a oedd yn weddill, nid oedd yr hysbysiad yn nodi'r lleoliad lle y byddai'r bwyd yn cael ei gadw.

15.20 Yn y pedwar achos lle ardystiwyd nad oedd bwyd yn bodloni'r gofynion diogelwch bwyd, roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau mai dyma oedd y cam gweithredu cywir ac yn dilyn ardystiad, cafodd bwydydd eu hatafaelu mewn un achos a'u hildio'n wirfoddol mewn dau achos. Yn yr achos a oedd yn weddill, nid oedd digon o wybodaeth ar gael ar ffeil y sefydliad i bennu'r broses ar gyfer ymdrin â'r bwyd neu'r canlyniad.

15.21 O ran bwyd a gafodd ei atafaelu, roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod atafael yn briodol, wedi'i gadarnhau yn ysgrifenedig a bod yr Ynad Heddwch wedi mynd i'r afael â'r bwyd cyn gynted ag yr oedd yn ymarferol bosib.

15.22 Yn y ddau achos lle y cafodd bwyd ei ildio'n wirfoddol, bu'r camau gweithredu a ddilynwyd yn briodol. Mewn un o'r achosion, rhoddwyd derbynebau ar gyfer dinistrio'r bwyd a lofnodwyd gan y swyddog a'u cydlofnodi gan y person a oedd yn ildio'r bwyd. Yn yr achos arall, er bod cofnodion ysgrifenedig gan y gweithredwr busnes bwyd ar gael, nid oedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod y dderbynneb wedi'i llofnodi gan y swyddog ac nid oedd yn nodi'r amser, y lleoliad na'r dull o ddinistrio'r bwyd.

15.23 Cafodd cofnodion eu harchwilio yn ymwneud â thynnu cymeradwyaeth yn ôl ar gyfer cynhyrchu ac ymdrin â chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid mewn un sefydliad. Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau mai tynnu cymeradwyaeth yn ôl oedd y cam gweithredu cywir, a rhoddwyd gwybod i'r gweithredwr busnes bwyd a'r ASB yn ysgrifenedig am benderfyniad yr

awdurdod. Ymhellach, roedd yr archwilwyr yn gallu gwirio bod yr hysbysiad yn nodi'n gywir y rhesymau am dynnu cymeradwyaeth yn ôl a'r materion angenrheidiol i fodloni gofynion yr hysbysiad. Roedd yr hysbysiad yn cynnwys y manylion angenrheidiol i weithredwr busnes bwyd allu apelio'r penderfyniad.

15.24 Roedd yr awdurdod wedi datblygu ffurflenni templed i'w defnyddio wrth lunio ffeiliau achos erlyn a Rhybuddion Syml. Yn ystod yr archwiliad, datblygwyd gweithdrefn gofnodedig i'w defnyddio ar y cyd â'r ffurflenni templed, a oedd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

15.25 Yn y ddwy flynedd cyn yr archwiliad, roedd yr awdurdod wedi cyflwyno dau Rybudd Syml ar gyfer troseddau safonau bwyd a dau erlyniad; un ar gyfer hylendid bwyd a'r llall ar gyfer troseddau safonau bwyd.

15.26 Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau y bu'r erlyniadau yn gamau gweithredu priodol. Fodd bynnag, nid oedd yr archwilwyr yn gallu gwirio bod yr awdurdod wedi cofnodi ei benderfyniadau o ran ei Bolisi Gorfodi neu elfennau perthnasol o'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron. Rhoddwyd gwybod gan yr archwilwyr am yr angen i sicrhau bod rolau dynodedig, yn unol â Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996, yn cael eu cofnodi'n glir ar ffeiliau erlyniadau a bod gan swyddogion yr awdurdod dirprwyedig angenrheidiol i gyflawni'r rolau hyn.

15.27 O ran y ddau Rybudd Syml a gyflwynwyd ar gyfer troseddau safonau bwyd, roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau eu bod wedi'u cyflwyno'n iawn gan swyddogion awdurdodedig addas. Fodd bynnag, nid oedd datganiadau tystion ar gael yn y naill achos ac nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y penderfyniad i gyflwyno Rhybudd Syml wedi'i wneud ar ôl ystyried y polisi gorfodi.

***Argymhellion***

15.28 Dylai'r awdurdod:

(i) Adolygu a diwygio ei bolisi gorfodi i gynnwys manylion am ei drefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion hylendid bwyd a safonau bwyd mewn sefydliadau lle mae ganddo gyfrifoldeb gweithredwr busnes bwyd a sicrhau y caiff ei gymeradwyo gan y fforwm aelodau priodol. [Y Safon – 15.1]

(ii) Cynnwys yn ei weithdrefnau gorfodi ar gyfer Hysbysiadau Camau Unioni, Hysbysiadau Gwella Hylendid, Hysbysiadau Gwahardd Brys Hylendid, achosion o gau'n wirfoddol a chadw bwyd, fanylion am drefniadau lleol, yn bennaf; dull a chofnod o'r gwasanaeth, gwiriadau cydymffurfiaeth, a'r defnydd o dempledi cymeradwy. Dylai hefyd gynnwys yn ei weithdrefn Atafael a Chadw fanylion am drefniadau lleol, yn bennaf; defnydd a gofyniad hysbysiadau a dogfennau cysylltiedig, y trefniadau lleol ar gyfer dwyn bwydydd gerbron Ynad Heddwch a dinistrio a gwaredu bwyd. [Y Safon – 15.2]

(iii) Sefydlu gweithdrefn orfodi gofnodedig ar gyfer camau dilynol a chamau gorfodi mewn perthynas â bwyd wedi'i fewnforio yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol. [Y Safon – 15.2]

(iv) Sicrhau bod gorfodi cyfraith bwyd yn cael ei wneud yn unol â'i weithdrefnau, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau swyddogol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 15.2]

(v) Sicrhau bod ei Bolisi Gorfodi yn cael ei weithredu'n llawn a bod pob penderfyniad ynghylch camau gorfodi yn cael eu cofnodi ac yn cael eu gwneud ar ôl ystyried y polisi gorfodi. Cofnodi'r rhesymau am wyro oddi wrth y meini prawf a nodi yn y Polisi Gorfodi. [Y Safon – 15.1]

## 16 Cofnodion ac Adroddiadau Ymyriadau/Arolygiadau

***Hylendid Bwyd***

16.1 Roedd cofnodion busnesau bwyd, gan gynnwys ffurflenni cofrestru, aides-memoire arolygiadau, ffurflenni ymweliadau yn dilyn arolygiad a gohebiaeth yn cael eu storio gan yr awdurdod ar ei gronfa ddata electronig ar gyfer sefydliadau bwyd. Roedd manylion am y dyddiad a'r math o ymyriad a gyflawnwyd mewn sefydliadau bwyd, yn ogystal â'r proffiliau sgoriau risg a sgoriau hylendid bwyd, hefyd yn cael eu cadw ar y system. Cafodd gwybodaeth yn ymwneud â sefydliadau bwyd a ddewiswyd i'w harchwilio ei darparu gan yr awdurdod ar ffurf copi caled a drwy fynediad at y gronfa ddata. O ran ffeiliau’r naw sefydliad a archwiliwyd, roedd gwybodaeth yn ymwneud â'r tri arolygiad diwethaf ar gael ac roedd cofnodion yn cael eu cadw am chwe blynedd, lle y bo'n berthnasol.

16.2 Roedd ffurflenni cofrestru bwyd ar gael ar ffeil ar gyfer tri allan o'r naw sefydliad a archwiliwyd ar gyfer hylendid bwyd. Roedd un o'r tair ffurflen gofrestru wedi'i stampio gyda'r dyddiad cyflwyno yn unol â'r weithdrefn leol.

16.3 Mewn pump o'r naw achos, roedd archwilwyr yn gallu cadarnhau bod swyddogion wedi cadw elfennau craidd cynllun HACCP busnes ar ffeil. Yn yr achosion a oedd yn weddill, nid oedd digon o dystiolaeth i ddangos bod y swyddogion wedi cadw'r holl bwyntiau rheoli critigol perthnasol ar aides-memoire neu rywle arall ar y cofnod ffeil.

16.4 Ym mhob achos, byddai ffeiliau sefydliadau cymeradwy yn elwa o adolygiad yn erbyn Atodiad 10 y Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd i sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gael, yn adferadwy ac wedi'i diweddaru.

16.5 Ym mhob achos ond un, roedd swyddogion wedi gadael ffurflenni 'adroddiad o ymweliad' yn dilyn arolygiadau ac wedi anfon llythyrau arolygu i roi gwybod am ganfyddiadau i fusnesau bwyd. Roedd llythyron arolygu yn gwahaniaethu'n glir rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion ar gyfer arfer da. Roedd y llythyrau hyn hefyd yn manylu ar gamau cywiro ac amserlenni gofynnol i gyflawni cydymffurfiaeth, yn ogystal â nodi unrhyw gamau gweithredu dilynol a fwriadwyd gan yr awdurdod.

16.6 Mewn wyth achos allan o naw, roedd yr awdurdod wedi darparu'r wybodaeth yr oedd hi'n ofynnol ei darparu i weithredwyr busnesau bwyd o dan Atodiad 6 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Yn yr achos a oedd yn weddill, roedd yr archwilwyr yn gallu gwirio bod yr holl wybodaeth ofynnol wedi'i darparu i'r busnes e.e. dogfennau a archwiliwyd, samplau a gymerwyd, llofnod gan y swyddog ac enw mewn prif lythrennau.

16.7 Ym mhob achos a archwiliwyd, cafodd y llythyron arolygu diweddaraf eu hanfon at fusnesau o fewn 14 diwrnod o ddyddiad yr ymweliad, fel oedd yn ofynnol gan weithdrefnau'r awdurdod a deddfwriaeth Sgôr Hylendid Bwyd. Fodd bynnag, mewn un achos, nid oedd yr archwilwyr yn gallu gwirio bod yr adroddiad arolygu wedi'i anfon at brif swyddfa'r busnes bwyd.

***Argymhellion***

16.8 Dylai'r awdurdod:

(i) Cadw cofnodion cywir a diweddaraf o bob sefydliad bwyd yn ei ardal yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Rhaid i'r cofnodion hyn gynnwys adroddiadau o bob ymyriad / arolygiad yn unol ag Atodiad 6, manylion am ymchwiliadau i glefydau heintus a gwybodaeth gofrestru berthnasol. Hefyd, dylai'r awdurdod gofnodi, gyda rhesymau, unrhyw achosion o wyro oddi wrth weithdrefn osodedig. [Y Safon – 16.1]

***Safonau Bwyd***

16.9 Roedd canlyniad arolygiadau'n cael eu hadrodd i fusnesau gan ddefnyddio ffurflenni adrodd am arolygiadau safonau bwyd. Roedd ffurflenni adrodd yn cael eu cadw'n electronig ar y gronfa ddata ac ar ffurf copi caled. Hefyd, roedd gwybodaeth yn ymwneud â gweithgarwch ymyrryd, gan gynnwys y dyddiad, math o ymyriad a gyflawnwyd a'r sgôr risg ar gyfer y sefydliad yn cael eu cofnodi ar y gronfa ddata.

16.10 Mewn pedwar achos, darparwyd gweithredwyr busnesau bwyd â ffurflenni adrodd ar ddiwedd eu harolygiad diweddaraf. Yn y pedwar

achos a oedd yn weddill, nid oedd ffurflenni adrodd ar gael. Mewn dau o'r achosion hyn, nid oedd hyn yn wir oherwydd bod ymyriadau wedi'u cynnal cyn diwygiad gweithdrefnol yn mynnu cam gweithredu o'r fath. Yn y ddau sefydliad risg uchel arall, nid oedd digon o dystiolaeth ar gael ar ffeil i ddangos bod ffurflenni adrodd wedi'u darparu. Rhoddwyd gwybod i'r archwilwyr fod copïau o aides-memoire wedi'u darparu i'r gweithredwr busnes. Nid oedd yr wybodaeth a ddarparwyd yn bodloni gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a gwnaethpwyd diwygiad i'r weithdrefn leol i'w gwneud hi'n ofynnol gadael neu anfon ffurflenni adrodd am arolygiad i'r cyfeiriad perthnasol ym mhob achos.

16.11 Roedd ffurflenni a gafodd eu darparu a'u llenwi yn unol â'r weithdrefn leol ddiwygiedig yn cynnwys yr holl wybodaeth a oedd yn ofynnol o dan Atodiad 6 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

16.12 Roedd yr awdurdod yn gallu dangos bod cofnodion safonau bwyd yn cael eu cadw'n gyson am o leiaf chwe blynedd.

***Argymhellion***

16.13 Dylai'r awdurdod:

(i) Sicrhau bod busnesau'n cael adroddiadau yn dilyn ymyriad a bod ffurflenni adrodd am arolygiad safonau bwyd a ddarperir yn dilyn ymyriadau/arolygiadau yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan Atodiad 6 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 16.1]

## 17 Cwynion am y Gwasanaeth

17.1 Roedd yr awdurdod wedi datblygu polisi cwynion corfforaethol a pholisi adrannol a oedd ar gael i'r cyhoedd a busnesau bwyd ar ei wefan.

17.2 Aethpwyd i'r afael â chwynion gan ddilyn gweithdrefn dau gam, yn gyntaf gan y rheolwr gwasanaeth perthnasol ac yna, os nad oedd y cwsmer yn fodlon, gan y Swyddog Cwynion Corfforaethol.

17.3 Daeth pedair cwyn i law yn erbyn y gwasanaeth hylendid bwyd yn y ddwy flynedd cyn yr archwiliad. Aethpwyd i'r afael â'r rhain yn unol â pholisi'r awdurdod.

17.4 Nododd yr archwilwyr fod manylion uwch swyddog wedi'u darparu ar ohebiaeth hylendid bwyd pe dymunai busnesau gwyno yn dilyn arolygiad neu ymyriad arall.

## 18 Cysylltu â Sefydliadau Eraill

18.1 Roedd gan yr awdurdod drefniadau cysylltu ar waith â nifer o grwpiau allanol gyda'r bwriad o sicrhau gwaith gorfodi effeithlon, effeithiol a chyson. Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod yr awdurdod wedi cynrychioli'r fforymau canlynol ar gyfer gwasanaethau rheoleiddio awdurdodau lleol:

- Grŵp Cyswllt Safonau Bwyd ac Amaethyddiaeth Gorllewin Cymru;
- Grŵp Gorchwyl Diogelwch Bwyd De-orllewin Cymru;
- Grŵp Gorchwyl Clefyd Trosglwyddadwy De-orllewin Cymru.

18.2 Roedd trefniadau hefyd ar waith i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am waith y cyrff canlynol a chysylltu â nhw fel y bo'n briodol:

- Panel Arbenigol Cymru Gyfan ar Ddiogelwch Bwyd;
- Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru;
- Grŵp Llywio Swyddogion Arweiniol Sgôr Hylendid Bwyd;
- Grŵp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru;
- Panel Arbenigol Clefyd Trosglwyddadwy Cymru;
- Swyddog Priodol Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy a nyrsys rheoli heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru (GIG Cymru);
- Grŵp Cyswllt Pysgod Cregyn Cymru.

18.3 Hefyd, roedd yr awdurdod wedi darparu tystiolaeth o drefniadau cyswllt effeithiol gyda'r sefydliadau allanol canlynol:

- Grŵp Cynghori Rheoli Burry Inlet;
- Grŵp Cynghori Rheoli y Tair Afon;
- Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru;
- Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (CEFAS);
- Grŵp Gweithredu Lleol De-orllewin Cymru;
- Uned Cydgysylltu Twyll Bwyd Cymru;
- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru;
- Dadansoddwr Cyhoeddus.

18.4 Roedd yr archwilwyr yn gallu gwirio bod mecanweithiau ar waith ar gyfer cysylltu'n effeithiol gydag adrannau mewnol.

**19 Monitro Mewnol**

19.1 Mae monitro mewnol yn bwysig i sicrhau bod targedau perfformiad yn cael eu bodloni a bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn unol â gofynion deddfwriaethol, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau'r awdurdod. Mae hefyd yn sicrhau cysondeb o ran cyflenwi gwasanaeth.

19.2 Cafodd nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol eu nodi ar gyfer y gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd. Roedd trefniadau monitro meintiol ar waith yn fewnol i fonitro perfformiad yn erbyn y targedau, a nodwyd yn y cynllun gwasanaeth. Roedd perfformiad wedi'i adrodd bob chwarter drwy waith monitro perfformiad corfforaethol. Cynhaliwyd gwaith monitro pellach o gynnydd rhaglenni ymyrraeth yn ystod adolygiadau llwyth gwaith un i un a chyfarfodydd tîm.

19.3 Mae gweithdrefnau monitro mewnol ar wahân wedi'u datblygu ar gyfer gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd.

19.4 Roedd y prif swyddogion, y swyddogion arweiniol a'r uwch swyddogion yn gyfrifol am waith monitro mewnol y gwasanaethau gorfodi bwyd ar lefel weithredol.

19.5 Roedd yr archwilwyr yn gallu gwirio bod rhywfaint o waith monitro meintiol wedi'i gynnal yn fewnol ar draws y gwasanaeth gan gynnwys gwiriadau cofnod.

19.6 O ran hylendid bwyd, cafodd yr angen i ymestyn cwmpas y weithdrefn i gynnwys gwiriadau cronfa ddata, awdurdodiadau swyddogion a hysbysiadau clefydau heintus, ac i nodi amlderau gofynnol ar gyfer pob gweithgaredd monitro, eu trafod gyda rheolwyr. Roedd cofnodion a gadwyd, yn unol â'r weithdrefn, yn cadarnhau natur a graddfa'r gweithgarwch monitro a oedd yn cynnwys arolygiadau cysylltiedig.

19.7 Roedd y weithdrefn fonitro safonau bwyd yn fewnol yn cynnwys diwygiadau diweddar yn ymwneud â monitro awdurdodiadau swyddogion, arolygiadau cysylltiedig ac amlderau gweithgarwch monitro. Roedd cofnod o waith monitro mewnol wedi'i gadw ar y gronfa ddata, ond nid oedd unrhyw adroddiad ar gael ac nid oedd y cofnodion yn

cadarnhau natur na graddfa'r gweithgarwch monitro. Ymhellach, nid oedd y weithdrefn wedi'i gweithredu'n llawn.

19.8 Hefyd, roedd cyfarfodydd tîm wedi'u cynnal i roi adborth a rhannu gwybodaeth am ddilysiad gwaith meintiol ac ansoddol. Nid oedd cyfarfodydd tîm hylendid bwyd bob amser wedi'u cynnal yn unol â'r amlder a nodwyd yn y weithdrefn.

19.9 Roedd swyddogion wedi mynychu hyfforddiant i sicrhau bod sgoriau risg hylendid bwyd yn cael eu dyfarnu'n gyson, yn unol ag Atodiad 5 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Roedd swyddogion hefyd wedi cymryd rhan yn ddiweddar mewn ymarfer cysondeb cenedlaethol a gydlynwyd gan yr ASB.

19.10 Roedd cofnodion a oedd ar gael mewn cysylltiad â gwaith monitro mewnol yn cael eu cadw gan reolwyr am o leiaf dwy flynedd.

***Argymhelliad***

19.11 Dylai'r awdurdod:

(i) Adolygu ei weithdrefn fonitro gofnodedig a ddefnyddir yn fewnol ar gyfer hylendid bwyd i gynnwys gwiriadau ar gywirdeb y gronfa ddata, gwiriadau ar awdurdodiadau swyddogion a gwiriadau ar gofnodion ymchwiliadau i hysbysiadau o glefydau heintus. Gweithredu'n llawn weithdrefnau hylendid bwyd a safonau bwyd i sicrhau bod gweithgareddau cyflenwi gwasanaeth eraill yn ychwanegol at gofnodion ffeil arolygiadau yn destun gwaith monitro mewnol hefyd. [Y Safon – 19.1]

(ii) Gwirio ei gydymffurfiaeth â'r Safon, deddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd. [Y Safon – 19.2]

(iii) Sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw o'r holl waith monitro safonau bwyd mewnol, gan gynnwys natur a graddfa'r gweithgarwch monitro a bod y rhain yn cael eu cadw am o leiaf dwy flynedd. [Y Safon – 19.3]

## 20 Adolygiad Trydydd Partïon neu Gymheiriaid

20.1 Yn mis Ionawr 2014, cyflwynodd yr awdurdod, yn yr un modd â'r 21 awdurdod lleol arall yng Nghymru, wybodaeth am ddau archwiliad â ffocws yr ASB – Ymateb Llywodraeth Leol yng Nghymru i Argymhellion yr Ymchwiliad Cyhoeddus i'r Achos o *E. coli O157* yn Ne Cymru a Dulliau Awdurdodau Lleol o Reoli Ymyriadau Mewn Busnesau Bwyd. Ni chafodd yr awdurdod ei archwilio ar ei ben ei hun yn rhan o'r rhaglen hon. Mae'r adroddiadau archwilio â ffocws hyn ar gael yn: https://www.food.gov.uk/cy/arall/archwiliadau-a-ffocws

20.2 Cafodd trefniadau'r awdurdod ar gyfer ymateb i argyfyngau y tu allan i oriau eu profi gan yr ASB ym mis Mawrth 2014. Cafwyd ymateb priodol.

20.3 Ym mis Gorffennaf 2014, cafodd yr awdurdod ymweliad yn rhan o Ymarfer yr ASB ar y Gallu i Olrhain a Dilysu Pysgod Cregyn yng Nghymru a Lloegr. Anfonwyd llythyr dilynol i'r awdurdod yn cynnwys 11 argymhelliad ar gyfer gwelliant ar gyfer y gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd. Cafodd camau gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion eu hadrodd i'r Pennaeth Gwasanaeth a'r Aelod Bwrdd Gweithredu priodol. Ni chafodd dau o'r camau gweithredu hyn eu profi yn ystod yr archwiliad hwn i weld a oeddent wedi'u cwblhau. Cafodd dau eu hasesu fel wedi'u cwblhau, pump fel wedi'u cwblhau'n rhannol a dau heb eu cwblhau.

20.4 Ym mis Tachwedd 2014, cafodd yr awdurdod ei archwilio yn rhan o archwiliad â ffocws yr ASB o reolaethau hylendid swyddogol mewn sefydliadau llaeth. Cytunwyd ar gynllun gweithredu archwilio a oedd yn cynnwys 26 o argymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth hylendid bwyd. Cafodd camau gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion eu hadrodd i'r Pennaeth Gwasanaeth a'r Aelod Bwrdd Gweithredol priodol. Ni chafodd cynnydd yn erbyn chwech o'r argymhellion hyn ei asesu yn ystod yr archwiliad. Fodd bynnag, yn ystod yr archwiliad gwiriwyd bod wyth argymhelliad wedi'u cwblhau, 10 wedi'u cwblhau'n rhannol a dau heb eu cwblhau.

20.5 Cafodd y camau gweithredu a oedd yn weddill yn deillio o'r archwiliadau â ffocws eu hasesu'n rhannol yn ystod yr archwiliad hwn a bydd gwybodaeth fanwl am gynnydd o ran y camau gweithredu gofynnol yn

cael eu darparu drwy ddull cyfathrebu ar wahân. Bydd y materion hynny sy'n parhau heb eu cwblhau yn cael rhagor o sylw yr un pryd â'r archwiliad hwn a'u cyfuno i mewn i un cynllun gweithredu ar y cam dilynol.

20.6 Roedd swyddogaethau Iechyd yr Amgylchedd yr awdurdod, a oedd yn cynnwys y gwasanaeth hylendid bwyd ac ymchwilio i glefyd heintus mewn cysylltiad â bwyd, yn destun adolygiad gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2013/14. Cafodd y canfyddiadau eu hadrodd i'r Pwyllgor Craffu Amgylcheddol a Diogelu'r Cyhoedd.

***Argymhelliad***

20.7 Dylai'r awdurdod:

(i) Gweithredu camau adferol effeithiol i fynd i'r afael â'r holl achosion o ddiffyg cydymffurfio a godwyd yn dilyn Ymarfer 2014 o'r Gallu i Olrhain a Dilysu Pysgod Cregyn ac archwiliad 2014 o swyddogaethau hylendid swyddogol mewn sefydliadau llaeth. [Y Safon – 20.2]

## 21 Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd

21.1 Gweithredodd yr awdurdod nifer o fentrau gyda'r nod o hyrwyddo hylendid bwyd a safonau bwyd. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys:

- Hyrwyddo'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd; yn bennaf ymgyrchoedd Dydd San Ffolant a'r Nadolig;
- Rhyddhau datganiadau i'r wasg ynghylch ymchwiliadau amlwg;
- Hyrwyddo diogelwch barbeciw, gan gynnwys Pecyn Cyfathrebu'r ASB;
- Hyrwyddo coginio byrgyrs yn ddiogel;
- Hyrwyddo wythnos Ymwybyddiaeth o Alergenau;
- Darparu gwybodaeth am goginio twrci Nadolig yn ddiogel;
- Cyflwyno sgyrsiau addysgiadol i ysgolion gan gynnwys hyrwyddo arfer golchi dwylo effeithiol gan ddefnyddio golau uwch fioled;
- Hyrwyddo Wythnos Diogelwch Bwyd;
- Cyhoeddi ymchwiliad sylweddol i alcohol a oedd o bwysigrwydd cenedlaethol.

**Arfer Gorau – Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasu**

Defnyddiodd yr awdurdod y cyfryngau cymdeithasu i godi ymwybyddiaeth o fentrau hylendid bwyd a safonau bwyd.

21.2 Roedd gwybodaeth gyfyngedig ar gael ar wefan yr awdurdod i hyrwyddo hylendid bwyd a safonau bwyd i ddefnyddwyr a rhanddeiliaid eraill.

21.3 Roedd cofnodion o weithgareddau hyrwyddo yn cael eu cadw gan y prif swyddogion.

**Archwilwyr:**

**Prif Archwilydd: Craig Sewell**
Archwilwyr: Owen Lewis
Nathan Harvey

Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
Llawr 11
Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

**Atodiad A**

***Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin***
**Dyddiad Archwiliad: 21 – 25 Tachwedd 2016**

**Mae'r awdurdod lleol wrthi'n llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.**

**Byddwn yn atodi'r cynllun gweithredu yn yr adran hon ar ôl i ni gytuno arno.**

**Atodiad B**

***Dull/Methodoleg Archwilio***

Cafodd yr archwiliad ei gynnal gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a methodoleg fel a ganlyn:

***(1) Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod Lleol***

Cafodd y polisïau, y gweithdrefnau a'r dogfennau cysylltiedig canlynol eu harchwilio:

- Cyngor Sir Caerfyrddin – Cynllun Gwasanaeth Bwyd a Bwyd Anifeiliaid, 2015 – 2016
- Iechyd a Diogelu'r Cyhoedd – Cymeradwyo Cynllun Gwasanaeth Bwyd a Bwyd Anifeiliaid, 2015 – 2016
- Iechyd a Diogelu'r Cyhoedd – Cynllun Gweithredu 2015/16
- Cyngor Sir Caerfyrddin – eitem 4 ar Agenda'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Amgylcheddol – 27 Ionawr 2014
- Cyngor Sir Caerfyrddin – eitem 3 ar Agenda'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Amgylcheddol – 10 Mawrth 2014
- Gweithdrefn Rheoli Dogfennau – Cyf FH001, 19 Chwefror 2016
- Gwasanaethau Safonau Masnach – Llawlyfr Ansawdd – Rhifyn 5, Mai 2014
- Gweithdrefn Awdurdodi – AP1, Mai 2004
- Y Cyfansoddiad – Adran 5, 19 Awst 2015 – Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau Gweithredol ac Anweithredol i Swyddogion
- Rhaglen Hyfforddi 2014-15 a 2015-16
- Gweithdrefn Graddnodi a Chynnal a Chadw – Cyf FH014, 2 Mawrth 2016
- Protocolau Presennol i sicrhau bod y Gronfa Ddata Safleoedd FLARE yn cael ei chynnal a'i gadw'n gywir.
- Ffurflen Arolygu Safle Cymeradwy
- Gweithdrefn Safleoedd Cymeradwy – Cyf FH011, 18 Chwefror 2016
- Gweithdrefn Ymyriadau Hylendid Bwyd – Cyf FH003, 28 Ionawr 2016
- Llythyr Adrodd am Arolygiad Hylendid Bwyd
- Gweithdrefn Sgôr Hylendid Bwyd – Cyf FH016, 10 Mawrth 2016
- Gweithdrefn ar gyfer Ymdrin â Datgysylltiadau Dŵr Arfaethedig
- Ffurflen Adrodd am Arolygiad
- Ffurflenni Arolygiad Safonau Bwyd
- Polisi Cwynion Bwyd – Cyf FH009, 4 Chwefror 2016
- Gweithdrefn Cwynion Bwyd – Cyf FH010, 4 Chwefror 2016
- Cyngor Sir Caerfyrddin – Cyngor i Fusnesau
- Cyngor Sir Caerfyrddin – Cyngor Busnes Safonau Masnach
- Gweithdrefn Hysbysu Busnesau a Chywirdeb Cronfa Ddata – Cyf FH015, 3 Mawrth 2016
- Polisi Samplu Bwyd – Cyf FH005, 11 Chwefror 2016

- Gweithdrefn Samplu Bwyd – Cyf FH006, 18 Chwefror 2016
- Rhaglen Samplu Diogelwch Bwyd 2014/15 a 2015/16
- Cynllun Samplu Safonau Bwyd 2014/15 a 2015/16
- Cynllun ar gyfer Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy Cymru – 'Cynllun ar gyfer Achosion Cymru' – Ebrill 2014
- Gweithdrefn Ymchwilio i Glefyd Trosglwyddadwy – Cyf FH012, 19 Chwefror 2016
- Polisi Rhybuddion a Digwyddiadau Bwyd – Cyf FH007, 4 Chwefror 2016
- Gweithdrefn Rhybuddion a Digwyddiadau Bwyd – Cyf FH008, 4 Chwefror 2016
- Polisi Gorfodi Corfforaethol – Awst 2015
- Cofnod o benderfyniad gan y tîm Gweithredu i fabwysiadu fersiwn ddiwygiedig o'r Polisi Gorfodi Corfforaethol – Awst 2015
- Gweithdrefn Safleoedd Cymeradwy – Cyf FH011, 18 Chwefror 2016
- Gweithdrefn Ailymweliadau Hylendid Bwyd – Cyf FH004, 28 Ionawr 2016
- Gweithdrefn Gorfodi Cyfraith Bwyd – Cyf FH002, 11 Chwefror 2016
- Polisi Cwynion a Phryderon – 6 Chwefror 2013
- Gweithdrefn Monitro Mewnol – Cyf FH013, 25 Chwefror 2016
- Cyngor Sir Caerfyrddin – Canfyddiadau Archwiliad â Ffocws yr Asiantaeth Safonau Bwyd – 14 Mai 2014

***(2) Adolygu ffeiliau a chofnodion***

Cafodd nifer o gofnodion yr awdurdod lleol eu hadolygu yn ystod yr archwiliad, gan gynnwys:

- Cofnodion cyffredinol sefydliadau bwyd
- Ffeiliau sefydliadau cymeradwy
- Cofnodion cwynion bwyd a sefydliadu bwyd
- Cofnodion samplu bwyd
- Cofnodion gorfodi anffurfiol a ffurfiol
- Cofnodion hyfforddi ac awdurdodiadau swyddogion
- Cofnodion monitro mewnol
- Cofnodion graddnodi
- Cofnodion hysbysiadau clefyd heintus yn ymwneud â bwyd
- Cofnodion digwyddiadau bwyd
- Cofnodion cyfarfodydd mewnol a chyfarfodydd cyswllt allanol
- Deunyddiau cynghori a hyrwyddo a ddarparwyd i fusnesau a defnyddwyr

***(3) Adolygu cofnodion Cronfa Ddata:***

Cafodd detholiad o gofnodion cronfa ddata eu hystyried yn ystod yr archwiliad er mwyn gwneud y canlynol:

- Adolygu ac asesu pa mor gyflawn yw cofnodion cronfa ddata arolygiadau bwyd, ymchwiliadau cwynion bwyd a sefydliadau bwyd, samplau a gymerwyd gan yr awdurdod, camau gorfodi ffurfiol a gweithgareddau eraill, a gwirio cysondeb gyda chofnodion ffeil.
- Asesu pa mor gyflawn a pha mor gywir yw'r gronfa ddata sefydliadau bwyd.
- Asesu gallu'r system i gynhyrchu adroddiadau gweithgarwch gorfodi cyfraith bwyd a'r wybodaeth fonitro sy'n ofynnol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

***(4) Cyfweliadau swyddogion***

Cynhaliwyd cyfweliadau â swyddogion gyda'r bwriad o gasglu rhagor o wybodaeth am y gwaith o roi trefniadau rheoli bwyd yr awdurdod ar waith. Cafodd y swyddogion canlynol eu cyfweld:

- Prif Ymarferwr Iechyd yr Amgylchedd
- Ymarferwyr Iechyd y Cyhoedd, gan gynnwys y swyddog â'r prif gyfrifoldeb am glefyd trosglwyddadwy
- Prif Swyddog Safonau Masnach
- Swyddogion Safonau Masnach

Mae barn a fynegir yn ystod cyfweliadau â swyddogion yn aros yn gyfrinachol ac ni chyfeirir atynt yn uniongyrchol o fewn yr adroddiad.

***(5) Gwiriadau ar y safle:***

Cynhaliwyd ymweliadau gwirio gyda swyddogion i dri sefydliad bwyd lleol. Diben yr ymweliadau hyn oedd ystyried pa mor effeithiol oedd asesiad yr awdurdod o gydymffurfiaeth busnesau bwyd â gofynion perthnasol.

**Atodiad C**

***Geirfa***

| | |
|---|---|
| Sefydliadau cymeradwy | Sefydliad gweithgynhyrchu bwyd wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod lleol, yng nghyd-destun deddfwriaeth benodol, ac sydd wedi cael cod adnabod unigryw sy'n berthnasol ar gyfer masnach genedlaethol a/neu ryngwladol. |
| Swyddog awdurdodedig | Swyddog cymwys addas wedi'i awdurdodi gan yr awdurdod lleol i weithredu ar ei ran i orfodi deddfwriaeth. |
| Codau Ymarfer | Codau Ymarfer y Llywodraeth a gyflwynwyd o dan Adran 40 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 fel canllawiau i awdurdodau lleol ar orfodi deddfwriaeth bwyd. |
| Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol | Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 – llywodraethu gweithdrefnau ar gyfer cynnal ymchwiliadau a gweithrediadau troseddol. |
| Pwynt Rheoli Critigol | Cam yng ngweithrediadau busnes bwyd lle mae rheolaeth yn hanfodol i atal neu ddileu perygl bwyd neu ei leihau i lefelau derbyniol. |
| Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru | Sefydliad llawn swyddogion sy'n benaethiaid gwasanaethau diogelu'r cyhoedd mewn awdurdodau lleol yng Nghymru. |
| Gweithiwr Proffesiynol/Swyddog Iechyd yr Amgylchedd | Swyddog wedi'i gyflogi gan yr awdurdod lleol i orfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd. |
| Archwiliwr Bwyd | Unigolyn â'r cymwysterau a ragnodir sy'n gwneud gwaith dadansoddi microbiolegol ar ran yr awdurdod lleol. |
| Rhybuddion Perygl Bwyd/ Rhybuddion Bwyd | System yw hon sy'n cael ei gweithredu gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd i rybuddio'r cyhoedd ac awdurdodau lleol am broblemau cenedlaethol neu ranbarthol yn ymwneud â diogelwch bwyd. |

| | |
|---|---|
| Hylendid Bwyd/Bwyd anifeiliaid | Y gofynion cyfreithiol sy'n cwmpasu diogelwch a pha mor iach i'w fwyta yw bwyd/bwyd anifeiliaid. |
| Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB). | Cynllun sgorio busnesau bwyd i roi gwybodaeth i ddefnyddwyr am eu safonau hylendid. |
| Safonau bwyd | Y gofynion cyfreithiol o ran ansawdd, cyfansoddiad, labelu, cyflwyno a hysbysebu bwyd, a materion sy'n dod i gysylltiad â bwyd. |
| Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) | Rheoleiddiwr y DU ar gyfer diogelwch bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. |
| Cytundeb Fframwaith | Mae'r Cytundeb Fframwaith yn cynnwys:<br>• Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd<br>• Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth<br>• Cynllun Monitro<br>• Cynllun Archwilio<br><br>Mae'r **Safon** a'r **Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth** yn nodi disgwyliadau'r Asiantaeth o ran cynllunio a chyflenwi gwaith gorfodi cyfraith bwyd.<br><br>Mae'r **Cynllun Monitro** yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno ffurflenni bob chwarter i'r ASB ar eu gweithgareddau gorfodi bwyd h.y. nifer yr arolygiadau, samplau ac erlyniadau.<br><br>O dan y **Cynllun Archwilio**, bydd yr ASB yn cynnal archwiliadau o wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd awdurdodau lleol yn erbyn y meini prawf a nodir yn y Safon. |
| Gweithwyr Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) | Ffigwr sy'n cynrychioli cyfran o amser swyddog unigol sydd ar gael i gyflawni rôl neu gyfres o ddyletswyddau penodol. Mae'n adlewyrchu'r ffaith y gall unigolion weithio rhan amser, neu'r ffaith y gall fod ganddynt gyfrifoldebau eraill o fewn y sefydliad nad ydynt yn ymwneud â gorfodi bwyd. |
| Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP) | Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol – system rheoli diogelwch bwyd a ddefnyddir o fewn busnesau bwyd i nodi pwyntiau yn ystod y broses gynhyrchu lle mae'n hanfodol ar gyfer diogelwch bwyd fod y mesur Rheoli'n cael ei gynnal yn gywir, |

| | |
|---|---|
| | felly'n dileu neu'n lleihau'r perygl i lefel ddiogel. |
| Awdurdod cartref | Awdurdod y lleolir prif swyddfa busnes lle caiff y penderfyniadau eu gwneud. Mae'n gyfrifol am gynghori'r busnes hwnnw ar faterion diogelwch bwyd/safonau bwyd. Mae'n gweithredu fel y pwynt cyswllt canolog ar gyfer ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill o ran polisïau a gweithdrefnau'r cwmni yn ymwneud â bwyd. |
| Hysbysiad Gwella Hylendid (HIN) | Hysbysiad a gyflwynir gan Swyddog Awdurdodedig yr awdurdod lleol o dan Reoliad 6 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i berchennog busnes bwyd gynnal gwaith addas i sicrhau bod y busnes yn cydymffurfio â rheoliadau hylendid. |
| Arolygiad | Archwilio sefydliad bwyd neu fwyd anifeiliaid er mwyn gwirio cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid. |
| Ymyriad | Dull neu dechneg a ddefnyddir gan awdurdod i wirio neu gefnogi cydymffurfiaeth busnes gyda chyfraith bwyd neu fwyd anifeiliaid. |
| Archwilio rhwng fwy nag un awdurdod | System lle y gallai awdurdodau lleol archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd ei gilydd yn erbyn safon ansawdd a gytunwyd. |
| System Monitro Gwaith Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS) | Mae'r System Monitro Gwaith Gorfodi Awdurdodau Lleol yn system electronig a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i adrodd eu gweithgareddau gorfodi cyfraith bwyd i'r ASB. |
| Fforwm aelodau | Fforwm awdurdodau lleol lle mae Aelodau Cyngor yn trafod ac yn gwneud penderfyniadau ar wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd. |
| Bwrdd Safonau Masnach Cenedlaethol | Cymdeithas o brif swyddogion safonau masnach. |
| Ffurflenni OCD | Ffurflenni ar weithgareddau gorfodi cyfraith bwyd lleol y mae'n ofynnol eu cwblhau i'r Undeb Ewropeaidd o dan y Gyfarwyddeb Rheolaeth |

| | |
|---|---|
| | Swyddogol o Fwyd. |
| Rheolaethau Swyddogol | Unrhyw ffurf o reolaeth ar gyfer gwirio cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid. |
| Awdurdod Gwreiddiol | Awdurdod lle y mae busnes yn cynhyrchu neu'n pecynnu nwyddau neu wasanaethau yn ei ardal. Hefyd, mae'r awdurdod gwreiddiol yn gweithredu fel pwynt cyswllt canolog ar gyfer ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill mewn perthynas â'r cynhyrchion hynny. |
| Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol | Mae Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 yn llywodraethu gweithdrefnau ar gyfer casglu tystiolaeth mewn ymchwiliadau troseddol. |
| Prif Awdurdod | Awdurdod lleol sydd wedi datblygu partneriaeth gyda busnes sy'n masnachu ar draws ffiniau awdurdodau lleol ac sy'n rhoi cyngor i'r busnes hwnnw. |
| Dadansoddwr Cyhoeddus | Swyddog sydd â'r cymwysterau a ragnodir, wedi'i benodi'n ffurfiol gan yr awdurdod lleol i ddadansoddi samplau bwyd yn gemegol. |
| Cofrestru | Proses gyfreithiol lle y mae'n ofynnol i bob gweithredwr busnes bwyd hysbysu'r awdurdod bwyd priodol wrth sefydlu busnes bwyd. |
| Hysbysiadau Camau Unioni (RAN) | Hysbysiad a gyflwynir gan Swyddog Awdurdodedig yr awdurdod lleol o dan Reoliad 9 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 (fel y'i diwygiwyd) i weithredwr busnes bwyd yn gosod cyfyngiadau ar sefydliad, offer neu broses nes bod gwaith a nodir wedi'i wneud i gydymffurfio â gofynion hylendid bwyd. |
| Sgôr risg | System sy'n sgorio sefydliadau bwyd yn ôl risg ac yn pennu pa mor aml y dylai'r sefydliadau hynny gael eu harolygu. Er enghraifft, dylai sefydliadau hylendid risg uchel gael eu harolygu bob chwe mis. |
| Cynllun Gwasanaeth | Dogfen a gynhyrchir gan awdurdod lleol yn nodi ei gynlluniau ar gyfer darparu gwasanaeth bwyd i'r gymuned leol. |

| | |
|---|---|
| Safonau Masnach | Gwasanaeth o fewn awdurdod lleol sy'n cyflawni, ymysg cyfrifoldebau eraill, waith gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. |
| Swyddog Safonau Masnach | Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol a all, ymysg cyfrifoldebau eraill, orfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. |
| Awdurdod Unedol | Awdurdod lleol lle y cyfunir yr holl swyddogaethau, er enghraifft Awdurdodau Cymru a Bwrdeistrefi Llundain. Bydd cyfrifoldebau awdurdod unedol yn cynnwys gorfodi hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. |
| Busnes heb ei sgorio | Busnes bwyd a nodir gan awdurdod nad yw wedi cael asesiad sgorio risg rheoleiddiol. |
| Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru | Grŵp o gynrychiolwyr proffesiynol sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo iechyd yr amgylchedd a'r cyhoedd yng Nghymru. |